Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
77/2020
DYDDIAD CYHOEDDI:
10/12/2020

# Dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru

## Integreiddio cymunedol, cyfle cyfartal a chydraddoldeb canlyniadau

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80082-573-4

# Dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru

Integreiddio cymunedol, cyfle cyfartal a chydraddoldeb canlyniadau

Adroddiad gan:

alma economics

Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics; 2020. Dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru - Integreiddio cymunedol, cyfle cyfartal a chydraddoldeb canlyniad. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 77/2020.
Ar gael yn: https://llyw.cymru/dinasyddion-yr-ue-syn-byw-yng-nghymru-integreiddio-cymunedol-cyfle-cyfartal-chydraddoldeb-o-ran-canlyniadau

Barn yr ymchwilydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:
Trish Bloomer
Is-adran Cymunedau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ
Ffôn: 03000 254 497
E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

# Diolchiadau

Hoffai'r tîm prosiect ddiolch i Wiard Sterk ac Eva Plajerova o Settled, Gareth Hodgson a chydweithwyr o Gyngor Dinasyddion Caerdydd a'r Fro, Chloe Peers o Gyngor ar Bopeth Sir y Fflint, Alun Gruffudd a Kate Blahut o Gyngor ar Bopeth, Claire Thomas o Sefydliad Bevan, Hayley Morgan o TGP Cymru, Riaz Hassan (Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr), Siân Sanders (Rheolwr Gweithredol Diogelwch Cymunedol, Cydlyniant ac Ymgysylltu yng Nghyngor Caerdydd), Heather Powell (Rheolwr Cymunedau Cysylltiedig yng Nghyngor Dinas Casnewydd) , Pavlina Mondol (Swyddog Cydlyniant Cymunedol yng Nghyngor Dinas Casnewydd), Emily Reddy (Cydlynydd Cydlyniant Rhanbarthol Wrecsam), Monika Frackowiak (Swyddog Cydlyniant Cymunedol ar gyfer Wrecsam), yn ogystal â chydweithwyr o EYST, Cyngor Dinas Caerdydd, WLGA, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, a Llywodraeth Cymru, am eu cyfraniad gwerthfawr i'r ymchwil hwn.

**Tabl Cynnwys**


**1. Crynodeb gweithredol ... 10**

**2. Cyflwyniad ... 13**

**3. Ymchwil cefndirol ... 15**

**Integreiddio yn y DU ... 15**

Polisïau integreiddio yng Nghymru ... 16

**Ymfudwyr o'r UE yn y DU ... 17**

Ymfudwyr o'r UE yng Nghymru ... 19
Effaith ymfudo o'r UE yng Nghymru ... 21
Tystiolaeth ar integreiddio ymfudwyr o'r UE yng Nghymru ... 22
Ymfudwyr o'r UE yng Nghymru ar ôl penderfyniad y DU i adael yr UE ... 24

**Mesur integreiddio ... 25**

**4. Mesur integreiddio dinasyddion yr UE yng Nghymru – Dadansoddiad meintiol ... 27**

**Methodoleg ... 27**

Cyflogaeth ... 30
Cyfradd diweithdra a'r math o gontract ... 31
Hunangyflogaeth ... 34
Cyflogaeth sector cyhoeddus ... 35
Rôl hyfforddi a goruchwylio ... 38
Galwedigaeth, diwydiant, a sgiliau ... 40

Tai ... 50

Iechyd a budd-daliadau ... 55

Yr Iaith Gymraeg a hunaniaeth genedlaethol ... 61
Gwybodaeth o'r Gymraeg ... 61
Hunaniaeth genedlaethol ... 63

**5. Mesur integreiddio dinasyddion yr UE yng Nghymru – Ymchwil ansoddol ... 67**

**Ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid ... 67**

Methodoleg ... 67

Canlyniadau ... 68
Heriau allweddol i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru ... 68
Adnoddau sydd ar gael i ddinasyddion yr UE ... 70

Effaith penderfyniad y DU i adael yr UE ........ 71
**Cyfweliadau ag unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-27 ........ 73**
Methodoleg ........ 73
Canlyniadau ........ 75
Gwybodaeth o’r Gymraeg ........ 75
Cyfathrebu yn Saesneg ........ 76
Mynediad at addysg ........ 76
Mynediad at y farchnad lafur ........ 77
Mynediad at fudd-daliadau ........ 78
Mynediad at wasanaethau gofal iechyd ........ 79
Cymdogaeth, cyfranogiad cymunedol a rhyngweithio cymdeithasol ........ 80
Effaith penderfyniad y DU i adael yr UE ........ 81
**6. Argymhellion a chasgliadau polisi ........ 83**
**Argymhellion polisi sy'n targedu integreiddio ymfudwyr o’r UE yng Nghymru ........ 85**
Argymhellion polisi sy’n targedu integreiddio unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-8 a’r UE-2 ac sy’n byw yng Nghymru ........ 87
**7. Cyfeiriadau ........ 89**

**Rhestr tablau**

Tabl 3.1: Preswylwyr Cymru yn 2019 a anwyd yn UE-27 yn ôl eu gwlad enedigol ..............20
Tabl 4.1. Nodweddion demograffig poblogaethau a anwyd yn yr UE-14, UE-8, a Chymru yn 2018-19 ....29
Tabl 4.2. Maint sampl ac amcangyfrifon poblogaeth preswylwyr Cymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol ....29
Tabl 4.3. Cyfradd diweithdra unigolion a anwyd yn UE-27 sy’n byw yn y DU yn 2018-19 yn ôl gwlad breswyl ....32
Tabl 4.4. Y rhai a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy'n gweithio yn y sector preifat a chyhoeddus sy'n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl nifer o flynyddoedd ers cyrraedd .............37
Tabl 4.5. Lefel addysg y rhai a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy’n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl nifer o flynyddoedd ers cyrraeddl ....38
Tabl 4.6. Diwydiannau lle mae pobl yng Nghymru yn gweithio yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol....43
Tabl 4.7. Occupations o weithwyr sy’n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol ....45
Tabl 4.8. Cymwysterau gweithwyr sy’n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol ....46
Tabl 4.9. Gweithwyr gor-fedrus yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol a gwlad breswyl yn y DU 49
Tabl 4.10. Dosbarthiad amddifadedd tai a diogelwch cymunedol ar gyfer Pwyliaid a gwladolion y DU sy'n byw yng Nghymru yn 2017-19....54
Tabl 4.11. Statws iechyd hunan-adrodd preswylwyr Cymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol a grŵp oed ....57
Tabl 4.12. Canran preswylwyr Cymru a wnaeth gais am fudd-daliadau yn 2018 yn ôl cenedligrwydd a’r math o fudd-daliadau....58
Tabl 4.13. Canran unigolion a anwyd yn UE-27 a wnaeth gais am fudd-daliadau yn 2018 yn ôl gwlad breswyl ....59
Tabl 4.14. Lefel boddhad Pwyliaid a gwladolion y DU sy'n byw yng Nghymru wrth gyrchu gwybodaeth yn 2017-19 ....60
Tabl 4.15. Gwybodaeth o’r iaith Gymraeg gan ddinasyddion a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy’n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl nifer o flynyddoedd ers cyrraedd ....................62

Tabl 4.16. Gwybodaeth o’r iaith Gymraeg gan ddinasyddion a anwyd yn UE-14 ac UE-8 yn byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl sgiliau galwedigaethol ....................................63
Tabl 4.17. Y rhai a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy’n byw yng Nghymru sy’n nodi hunaniaeth Gymreig yn 2018-19 yn ôl nodweddion economaidd-gymdeithasol .........................64
Tabl 4.18. Y rhai a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy’n adrodd am hunaniaeth Brydeinig yn 2018-19 a 2014-15 yn ôl gwlad breswyl ..........................................................................66

**Rhestr o ffigyrau**

Ffigwr 3.1: Cyfran yr unigolion a anwyd yn UE-27 ym mhob gwlad y DU 2010-2019 .......... 20
Ffigwr 4.1. Cyfradd diweithdra yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol .................. 31
Ffigwr 4.2. Canran y bobl gyflogedig sy'n gweithio amser llawn yng Nghymru 2018-19 yn ôl gwlad enedigol .......... 33
Ffigwr 4.3. Canran y bobl gyflogedig â swydd barhaol sy'n byw yng Nghymru 2018-19 yn ôl gwlad enedigol .......... 33
Ffigwr 4.4. Cyfradd hunangyflogaeth gweithwyr sy'n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol .......... 34
Ffigwr 4.5. Cyfradd hunangyflogaeth gweithwyr a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy'n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl nifer o flynyddoedd ers cyrraedd .......... 35
Ffigwr 4.6. Preswylwyr cyflogedig yng Nghymru sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol .......... 36
Ffigwr 4.7. Gweithwyr sy'n byw yng Nghymru yn ymgymryd â hyfforddiant cysylltiedig â swydd yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol .......... 39
Ffigwr 4.8. Gweithwyr sy'n byw yng Nghymru mewn rolau goruchwylio yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol .......... 40
Ffigwr 4.9. Sgiliau galwedigaethol gweithwyr sy'n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol .......... 41
Ffigwr 4.10. Gweithwyr gor-fedrus sy'n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol .......... 47
Ffigwr 4.11. Gweithwyr gor-fedrus a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy'n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl nifer o flynyddoedd ers cyrraedd .......... 48
Ffigwr 4.12. Daliadaeth tai preswylwyr Cymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol .......... 51
Ffigwr 4.13. Daliadaeth tai y rhai a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy'n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl nifer o flynyddoedd ers cyrraedd .......... 52
Ffigwr 4.14. Preswylwyr Cymru yn rhentu gan landlord preifat neu gyhoeddus yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol .......... 53
Ffigwr 4.15. Statws iechyd hunan-adrodd preswylwyr Cymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol .......... 56
Ffigwr 4.16. Y rhai a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy'n adrodd am hunaniaeth Brydeinig yn 2018-19 yn ôl gwlad breswyl .......... 65

**Rhestr blychau**

Blwch 4.1. Mynegeion amddifadedd tai a diogelwch cymunedol ar gyfer Pwyliaid yn byw yng Nghymru ........52
Blwch 4.2. Mynediad at wasanaethau lleol ........58

**Geirfa/Terminoleg**

| Geiriau allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Gwledydd A8 | Mae'r gwledydd A8 yn cynnwys Gweriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Gwlad Pwyl, Slofacia a Slofenia |
| APS | Arolwg Poblogaeth Blynyddol |
| CAB | Cyngor ar Bopeth |
| UE | Undeb Ewropeaidd |
| EUCR | Hawliau Dinasyddion yr UE |
| EU-LFS | Arolwg Llafurlu'r UE |
| EU-SILC | Ystadegau'r UE ar Incwm ac Amodau Byw |
| Gwledydd eraill yr UE | Mae gwledydd eraill yr UE yn cynnwys Croatia, Malta, a Cyprus. |
| Gwledydd UE-2 | Mae gwledydd UE-2 yn cynnwys Bwlgaria a Rwmania. |
| Gwledydd UE-8 | Mae gwledydd UE-8 yn cynnwys y rhai a ddaeth i mewn i'r UE yn 2004, gan gynnwys Gweriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Gwlad Pwyl, Slofacia, a Slofenia.<br>Hefyd cyfeirir at wledydd UE-8 fel Gwledydd A8 mewn rhai erthyglau. Lle'r ydym wedi cyfeirio at yr erthyglau hyn, defnyddir terminoleg wreiddiol yr awduron. |
| Gwledydd UE-13+ | Mae gwledydd UE-13+ yn cynnwys Awstria, Gwlad Belg, Denmarc, y Ffindir, Ffrainc, Yr Almaen, Groeg, Yr Eidal, Lwcsembwrg, Yr Iseldiroedd, Portiwgal, Sbaen, Sweden, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, Norwy a'r Swisdir. |
| Gwledydd UE-14 | Mae gwledydd UE-14 yn cynnwys Awstria, Gwlad Belg, Denmarc, y Ffindir, Ffrainc, Yr Almaen, Groeg, Gweriniaeth Iwerddon, Yr Eidal, Lwcsembwrg, Yr Iseldiroedd, Portiwgal, Sbaen a Sweden. |
| Gwledydd UE-27 | Mae gwledydd UE-27 yn cynnwys 27 aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd. |
| EYST | Tîm Lleiafrifoedd Ethnig a Chefnogaeth Ieuenctid |
| GP | Meddyg teulu |
| LFS | Arolwg o'r Llafurlu |

| | |
|---|---|
| NINO | Rhif Yswiriant Gwladol |
| ONS/SYG | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| PISA | Rhaglen Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol |
| SOC | Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol |
| UK NARIC | Canolfan Gwybodaeth Cydnabyddiaeth Genedlaethol y DU |
| WLGA | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| WSMP | Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru |

# 1. Crynodeb gweithredol

Ar ôl cydnabod yr angen i sicrhau bod cymunedau ymfudol yng Nghymru yn gallu deall eu hawliau a'u gwasanaethau, comisiynodd Llywodraeth Cymru Alma Economics i archwilio i gyfleoedd a chanlyniadau dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru a nodi meysydd ar gyfer gwella integreiddio. Mae'r ymchwil hwn yn rhan o brosiect Hawliau Dinasyddion yr UE (EUCR), sy'n ceisio annog dinasyddion yr UE i aros yng Nghymru, yn ogystal â sicrhau bod dinasyddion yr UE yn gallu cael gafael ar gyngor priodol a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag camfanteisio ac eithrio.

Oherwydd yr ymchwil cyfyngedig ar integreiddio dinasyddion yr UE yng Nghymru, roedd angen gwneud gwaith ychwanegol i ddeall yr anghydraddoldebau a'r rhwystrau i integreiddio ymfudwyr o'r UE yn y gymuned Gymreig. Mae'r astudiaeth gyfredol yn defnyddio dadansoddiad meintiol o ddangosyddion allweddol i werthuso integreiddio poblogaeth a anwyd yn yr UE-27 sy'n byw yng Nghymru, gan gwmpasu pedwar categori eang:

- Cyflogaeth,
- Tai,
- Iechyd a budd-daliadau, a
- Sgiliau iaith a hunaniaeth genedlaethol.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys ymchwil ansoddol gyda dinasyddion yr UE, swyddogion llywodraeth leol a sefydliadau sy'n darparu cefnogaeth a gwasanaethau i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru. Nod y dadansoddiad ansoddol yw archwilio'r broses integreiddio ehangach, gan ystyried meysydd y tu hwnt i'r rhai a ddadansoddwyd yn yr adran feintiol, ac archwilio'r cysondeb rhwng data cyhoeddedig a phrofiadau byw sampl o unigolion a anwyd yng ngwledydd yr UE-27 sy'n byw yng Nghymru.

**Prif ganfyddiadau**

**Diffyg mynediad at wybodaeth am wasanaethau cyhoeddus:** Mae'r ymchwil wedi nodi mai'r rhwystr mwyaf cyffredin i gyfle cyfartal/ canlyniadau i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru yw diffyg gwybodaeth hygyrch. Gall peidio â chael gwybodaeth briodol atal dinasyddion yr UE rhag integreiddio'n llwyddiannus (fel y'i mesurir gan Ddangosyddion y Swyddfa Gartref ar gyfer Integreiddio), megis methu â chofrestru gyda meddyg teulu neu wneud cais am fudd-daliadau y maent yn gymwys i'w cael. Mae arweinwyr cymunedol yng nghymunedau'r UE[1] yn chwarae rhan bwysig o ran helpu pobl i gael gwybodaeth gywir, ac yn bwysicaf oll, i integreiddio.

[1] Mae cymunedau'r UE yn cyfeirio at gymunedau gwlad enedigol dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru

**Mae dinasyddion yr UE yn aml yn or-gymwys:** mae dinasyddion yr UE, yn enwedig y rheini o wledydd yr UE-8 a'r UE-2, wedi'u crynhoi mewn swyddi y maent yn or-gymwysedig ar eu cyfer. Un esboniad am hyn yw nad yw cyflogwyr yn deall cymwysterau o wledydd UE-8 ac UE-2, efallai oherwydd y diffyg ymwybyddiaeth ynghylch trosi cymwysterau.

**Rhwystrau iaith:** Disgrifiodd rhanddeiliaid allweddol nad yw llawer o unigolion o wledydd UE-8 ac UE-2 yn hyfedr wrth siarad Saesneg, hyd yn oed ar ôl byw yng Nghymru am gyfnod estynedig. Yn aml nid oes gan y grŵp hwn, sy'n anghymesur mewn swyddi sgiliau isel, amser i fynychu cyrsiau iaith Saesneg gan eu bod yn aml yn gweithio oriau hir. Mae gan anallu i gyfathrebu'n hyfedr yn Saesneg nifer o oblygiadau i ddinasyddion yr UE yng Nghymru, gan gynnwys cyfyngu ar eu cyfleoedd yn y farchnad lafur, eu mynediad at ofal iechyd, a'u dealltwriaeth o'r system fudd-daliadau.

**Argymhellion a chasgliadau polisi**

Daw'r ymchwil i'r casgliad y dylai gweithredoedd polisi ganolbwyntio ar holl ddinasyddion UE-27 sy'n byw yng Nghymru. Er ei bod yn bwysig darparu cefnogaeth i'r rheini o holl genhedloedd UE-27, mae angen dwys am fesurau cymorth ychwanegol sy'n targedu'n benodol y mewnfudwyr hynny a gyrhaeddodd yn ddiweddar, yn ogystal â phobl o wledydd UE-8 a'r UE-2 sy'n byw yng Nghymru.

**(1) Helpu dinasyddion yr UE sy'n ymgartrefu yng Nghymru i deimlo bod croeso iddynt:** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch i'w croesawu, yn debyg i'r ymgyrch 'London is Open', i anfon y neges bod dinasyddion yr UE yn cael eu croesawu a'u gwerthfawrogi yng Nghymru. Rydym yn argymell bod yr ymgyrch i'w croesawu yn anelu at dargedu'r sbectrwm lawn o ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru, o fewnfudwyr tymor hir sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru i rai a gyrhaeddodd yn gymharol ddiweddar. Gallai'r ymgyrch fod â'r nod ychwanegol o annog teimlad cadarnhaol ymhlith poblogaeth Cymru tuag at ddinasyddion yr UE trwy amlinellu eu cyfraniadau i Gymru. Gan mai amcan yr ymgyrch yw cyrraedd pobl o sawl demograffeg, dylid ddefnyddio dull eang gan gynnwys hysbysfyrddau, negeseuon radio/teledu a chyfryngau cymdeithasol.

**(2) Gwell mynediad at wybodaeth:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried adeiladu porth ar-lein i ddarparu i) trosolwg byr, a ii) dolenni i wefannau swyddogol ar bob agwedd ar integreiddio i ddinasyddion yr UE. Dylai'r porth fod yn siop un stop ar gyfer gwybodaeth i newydd-ddyfodiaid i Gymru. Gellid strwythuro'r porth o amgylch Dangosyddion Integreiddio'r Swyddfa Gartref, e.e. budd-daliadau, gofal iechyd, addysg, hawliau a chyfrifoldebau. I bob maes, gallai'r porth gynnwys esboniad cryno ynghylch sut mae pob gwasanaeth yn gweithio yng Nghymru yn holl ieithoedd yr UE.

**(3) Mwy o gefnogaeth a rôl fwy gweithredol i sefydliadau sy'n gweithio i wella integreiddio**: Mae nifer o sefydliadau yn gweithredu yng Nghymru gyda'r nod o gefnogi pobl o'r UE sy'n ymgartrefu yng Nghymru, fel Settled a Chyngor ar Bopeth. Er mwyn gwella eu gwasanaethau i gefnogi cyfle cyfartal i ddinasyddion yr UE, gallai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid i'r sefydliadau hyn yn cael ei ddarparu yn y tymor hir er mwyn i) cefnogi pob maes integreiddio, a ii) hyfforddi a chyflogi arweinwyr cymunedol ar sail barhaol/tymor hir. Dylai'r arweinwyr hyn fod yn adnabyddus i'w cymunedau a dylai eu cymunedau ymddiried ynddynt - gan eu rhoi mewn sefyllfa dda i gynnig gwybodaeth a chefnogaeth i annog cynhwysiant a chydlyniant cymdeithasol yn y cymunedau hyn.

**4) Mynediad i'r farchnad lafur:** Dylid darparu gwybodaeth i ddinasyddion yr UE, yn enwedig y rheini o wledydd yr UE-8 ac UE-2, ar sut y gellir cydnabod eu cymwysterau yng Nghymru (dylid cynnwys y wybodaeth hon ar y porth). Gallai Llywodraeth Cymru gynhyrchu adnoddau i helpu cyflogwyr ddod yn fwy ymwybodol o gymwysterau gwledydd yr UE. Gallai'r adnoddau hyn fod ar ffurf dogfennau cyfeirio sy'n benodol i'r diwydiant, sy'n egluro cymwysterau holl wledydd yr UE a'r hyn sy'n cyfateb iddynt yn y DU. Yn ogystal, mae angen darparu cyngor gyrfa, gan gynnwys gwybodaeth am gymwysterau sy'n ofynnol ym marchnad lafur Cymru a chyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol, gan dargedu unigolion o wledydd UE-8 a'r UE-2.

**(5) Gwella sgiliau ieithyddol:** O ystyried bod gwybodaeth o'r iaith Saesneg yn hanfodol ar gyfer integreiddio i'r gymuned, byddai darpariaeth ychwanegol o wersi Saesneg yn fuddiol, yn enwedig i unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-8 ac UE-2. Gellid cyflwyno dosbarthiadau naill ai yn y gymuned neu yn y gweithle. Gan fod llawer o ymfudwyr o'r UE yn treulio llawer o amser yn y gwaith, gellid rhoi cymhellion i gyflogwyr ddarparu gwersi Saesneg yn y gweithle.

# 2. Cyflwyniad

2.1 Mae'r DU wedi profi mewnfudo net cadarnhaol ers canol yr 1980au gyda mwy o bobl yn ymfudo i'r DU bob blwyddyn na'r nifer sy'n ymfudo allan.[2] Profodd y DU fewnfudo net arbennig o fawr gan ddinasyddion yr UE o 2004 ymlaen, wrth iddi agor ei marchnad lafur i ymfudwyr o wledydd Canol a Dwyrain Ewrop a ymunodd â'r UE.

2.2 Yn dilyn mewnfudo, bydd unigolion yn integreiddio, i raddau amrywiol, i gymunedau yn y wlad sy'n eu derbyn. Mae llawer o ddiffiniadau o'r hyn y mae'n ei olygu i gael eich integreiddio i mewn i gymuned. At ddibenion yr adroddiad hwn, diffinnir integreiddio fel a ganlyn: gall mewnfudwyr warchod eu hunaniaeth a'u treftadaeth tra'n manteisio ar yr hawliau y mae'r wlad sy'n eu derbyn yn eu darparu iddynt. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt hefyd barchu eu cyfrifoldebau tuag at y gymdeithas ehangach (Spencer & Sanders, 2016; Y Swyddfa Gartref, 2019).

2.3 Er bod mewnfudo wedi bod yn destun dadlau erioed, fe wnaeth refferendwm 2016 ar aelodaeth y DU o'r UE ddwysáu'r ddadl mewnfudo ymhellach. Mae'r bleidlais ddilynol i adael yr UE, ar brydiau, wedi arwain at i ddinasyddion yr UE sy'n preswylio yn y DU wynebu ansicrwydd ynghylch eu hawl i aros. Er y gall dinasyddion yr UE sydd eisoes yn byw yn y DU sicrhau eu preswyliad sefydlog o dan bolisïau a chynlluniau mewnfudo newydd, nid yw rhai ohonynt eto wedi gwneud cais i Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, a fyddai'n caniatáu iddynt barhau i fyw yn y DU. Yn hyn o beth, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig gwasanaethau a thargedu cefnogaeth i helpu dinasyddion yr UE wneud cais i Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

2.4 Rhan o'r ymdrech i annog dinasyddion yr UE i aros yng Nghymru ar ôl penderfyniad y DU i adael yr UE yw prosiect Hawliau Dinasyddion yr UE (EUCR). Bydd yr EUCR yn sicrhau bod dinasyddion yr UE yn gallu cael gafael ar gyngor priodol, a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag camfanteisio ac eithrio. Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli asesiad cychwynnol o'r dystiolaeth ar yr anghydraddoldebau a all weithredu fel rhwystrau i integreiddio dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru, er mwyn hysbysu'r prosiect EUCR. Bydd yr ymchwil hwn hefyd yn cynyddu dealltwriaeth o

[2] “United Kingdom: A Reluctant Country of Immigration”, gan Will Somerville, Dhananjayan Sriskandarajah, Maria Latorre, cyhoeddwyd gan y Migration Policy Institute yn 2009.

gyfleoedd a chanlyniadau i ddinasyddion yr UE ar draws gwahanol barthau a nodi meysydd ar gyfer gwella integreiddio.

2.5 Rhennir yr ymchwil i dri cham:

- Cam I - yn darparu gwybodaeth gefndir am ymfudo o'r UE i'r DU, ac yn fwy penodol i Gymru.
- Cam II - yn archwilio cyfleoedd a chanlyniadau i ddinasyddion yr UE ar draws gwahanol barthau a nodi meysydd ar gyfer gwella integreiddio gan ddefnyddio ffynonellau data cyhoeddedig presennol.
- Cam III - yn nodi canfyddiadau ymchwil ansoddol gyda dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru, swyddogion llywodraeth leol, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r trydydd sector sy'n darparu cefnogaeth i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i ddinasyddion yr UE. Mae Cam III yn cynnwys set ehangach o ddangosyddion integreiddio o'i gymharu â Cham II, lle mae gwybodaeth mewn setiau data cyhoeddedig yn gyfyngedig.

2.6 Trefnir yr adroddiad fel a ganlyn: Mae Pennod 3 yn cyflwyno'r prif bolisïau integreiddio a gyflwynwyd yn y DU, ac yn fwy penodol yng Nghymru, ac yn crynhoi prif ganfyddiadau'r llenyddiaeth ar integreiddio dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru; mae Pennod 4 yn cynnwys dadansoddiad meintiol o integreiddio dinasyddion yr UE yng Nghymru yn seiliedig ar y dangosyddion integreiddio a ddatblygwyd gan y Swyddfa Gartref; mae Pennod 5 yn trafod tystiolaeth ansoddol o broses integreiddio dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru a gasglwyd trwy gyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol a dinasyddion yr UE; ac mae Pennod 6 yn darparu argymhellion polisi yn seiliedig ar y dadansoddiad meintiol ac ansoddol.

# 3. Ymchwil cefndirol

**Prif bwyntiau yr ymchwil cefndirol:**

- Nid oes strategaeth integreiddio gyfredol ar gyfer dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru. Mae cynlluniau cydlyniant cymunedol ar waith, ond nid yw'r rhain yn ymwneud yn benodol â dinasyddion yr UE.
- Prin yw'r dystiolaeth bod ymfudo o'r UE yn effeithio'n negyddol ar gyflogau gweithwyr â sgiliau isel. Nid oes tystiolaeth bod ymfudo o'r UE yn cynyddu troseddau a'r galw am wasanaethau iechyd. Mae ymfudo o'r UE (i) yn cael effaith gadarnhaol ar gyflogau gweithwyr â sgiliau uchel a (ii) yn cael effaith gadarnhaol ar gyllid cyhoeddus. Mae myfyrwyr yr UE yn cyfrannu'n gadarnhaol at economi Cymru.
- Mae integreiddio'n amlddimensiwn, sy'n golygu bod angen ystyried gwahanol agweddau ar integreiddio er mwyn deall y darlun cyffredinol. Dwy agwedd benodol i dynnu sylw atynt yw: (i) gall sgiliau iaith Saesneg cyfyngedig fod yn rhwystr i integreiddio, a (ii) mae dinasyddion yr UE wedi profi ansicrwydd ynghylch byw yng Nghymru, a atgyfnerthwyd ar ôl refferendwm yr UE.

## Integreiddio yn y DU

3.1 Mae cyfran fawr o boblogaeth a anwyd dramor yn byw yn y DU - 9.4 miliwn, bron i 14 y cant o gyfanswm y boblogaeth yn 2019.[3] Nid oes gan y DU strategaeth genedlaethol ar integreiddio ymfudwyr. Ers nifer o flynyddoedd, mae awdurdodau lleol a gweinyddiaethau datganoledig wedi bod yn actorion polisi integreiddio pwysig, trwy lunio eu cynlluniau integreiddio eu hunain.[4]

3.2 Gyda'r mewnlifiad mawr o ymfudwyr o wledydd A8[5] yn dilyn ehangu'r UE yn 2004, gwelodd nifer o ardaloedd ledled y DU gynnydd digynsail ym mhresenoldeb ymfudwyr, gan arwain at gyflwyno polisïau sy'n hyrwyddo integreiddio lleiafrifoedd ethnig mewn cymunedau lleol.

3.3 Mae'r Dangosydd Fframwaith Integreiddio, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref (2019), yn cyfeirio at y cysyniad o integreiddio fel un aml-ddimensiwn, gan ei fod yn

[3] Adferwyd y data o set ddata'r SYG sy'n dwyn yr enw "Population of the UK by country of birth and nationality", a ryddhawyd yn 2020.
[4] Gellir dod o hyd i wybodaeth am Lywodraethu Integreiddio Ymfudwyr yn y DU.
Mae gwybodaeth am y polisi integreiddio yn y DU ar lefel leol.
[5] Gwledydd A8 yw Gweriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Gwlad Pwyl, Slofacia a Slofenia.

dibynnu ar sawl ffactor sy'n effeithio ar fynediad at adnoddau a chyfleoedd; ac aml-gyfeiriadol, gan ei fod yn cynnwys pawb yn y gymdeithas. Yn hyn o beth, mae'r fframwaith yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o ddangosyddion integreiddio ar draws meysydd allweddol sy'n cynrychioli cyfle cyfartal a mynediad at adnoddau a gweithgareddau cyhoeddus (e.e. gwaith, addysg, cydlyniant cymdeithasol ac yn y blaen) y dylid eu hystyried er mwyn cynllunio a monitro polisïau integreiddio llwyddiannus.

## Polisïau integreiddio yng Nghymru

3.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n hwyluso cynnwys ymfudwyr yn y gymuned Gymreig a meithrin cydlyniant cymunedol. Mae cydlyniant cymunedol yn cyfeirio at y syniad y gall pobl o wahanol gefndiroedd fyw gyda'i gilydd yn yr un cymunedau lleol, ac er mwyn sicrhau hyn, mae integreiddio yn rhagofyniad (Pwyllgor Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2008; Jensen & Gidley, 2014).

3.5 Mae cydlyniant cymunedol hefyd yn un o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Llywodraeth Cymru, 2015a). Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod y dylai'r cyrff cyhoeddus weithio tuag atynt i wella ansawdd bywyd a llesiant pobl sy'n byw yng Nghymru, a hi yw'r Ddeddf gyntaf ledled y byd sy'n sefydlu llesiant pobl fel dyletswydd lywodraethol. Sefydlwyd un o'r nodau a gynigiwyd yn y Ddeddf - "Cymru o Gymunedau Cydlynol" - i gefnogi datblygiad "cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da". Mae cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant yn cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru trwy ddefnyddio dangosyddion cenedlaethol. Enghreifftiau o'r dangosyddion a ddefnyddir i fesur cydlyniant cymunedol yw'r teimlad o berthyn i ardaloedd lleol, p'un a yw pobl o wahanol gefndiroedd yn rhyngweithio ac yn parchu ei gilydd, a sut. Mae enghreifftiau eraill o ddangosyddion yn archwilio p'un a yw pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymdogaeth neu gartref, a oes ganddynt fynediad at wasanaethau cyhoeddus, neu a ydynt yn credu y gallant effeithio ar wneud penderfyniadau ar lefel leol.

3.6 Er mwyn gwella cydlyniant yn y gymuned, datblygodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol yn 2016, sy'n nodi dull lleol o sicrhau llwyddiant tuag at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Spencer &

Sanders, 2016). Byddai'r cynllun yn cael ei gyflawni ar draws saith maes canlyniad a all effeithio ar gydlyniant mewn cymunedau yng Nghymru. Un ffactor o'r fath oedd deall mewnfudo a'i effaith ar y gymuned. Amlygodd y cynllun gamau allweddol i sicrhau llwyddiant tuag at y canlyniad hwn, gan gynnwys datblygu a rhannu sesiynau briffio ar batrymau a thueddiadau ymfudo i lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

3.7 Yng nghyd-destun ehangach integreiddio, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu cynllun Cenedl Noddfa - Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, sy'n dilyn amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ("Cymru fwy cyfartal", "Cymru o gymunedau cydlynol", a "Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang") (Llywodraeth Cymru, 2019b). Mae'r cynllun yn ceisio helpu ceiswyr lloches a ffoaduriaid i ymgartrefu yng Nghymru a sicrhau bod ganddynt gyfle cyfartal a'u bod yn gallu integreiddio i'r gymuned Gymreig. Enghreifftiau o gamau a gynhwyswyd yn y cynllun yw hwyluso mynediad at dai, gwasanaethau iechyd, cyfleoedd addysgol a gwaith, yn ogystal â gwybodaeth a rhaglenni perthnasol sy'n helpu integreiddio i'r gymuned.

## Ymfudwyr o’r UE yn y DU

3.8 Er bod polisi cynhwysiant wedi canolbwyntio'n bennaf ar fewnfudwyr a cheiswyr lloches, nid oes strategaeth integreiddio benodol ar gyfer dinasyddion yr UE. Mae fframweithiau integreiddio'r DU a Chymru yn cyfeirio at ymfudwyr heb wahaniaethu rhwng gwladolion yr UE a gwladolion trydedd gwlad. Yn yr un modd, yng nghyd-destun ehangach polisïau rhyngwladol, mae'r Undeb Ewropeaidd wedi gweithredu rhaglenni sy'n cefnogi integreiddio gwladolion trydedd gwlad, megis y Gronfa Integreiddio Ewropeaidd a'r Cynllun Gweithredu ar Integreiddio Gwladolion Trydedd Gwlad, tra nad oes rhaglenni o'r fath yn bodoli ar gyfer gwladolion yr UE (Mügge & van der Haar, 2016). Fodd bynnag, gallai gwahaniaethau sylfaenol rhwng gwladolion trydedd gwlad a'r UE mewn materion fel statws cyfreithiol, hawliau a diwylliant, olygu bod angen strategaethau integreiddio wedi'u targedu sy'n rhoi cyfrif am y gwahaniaethau hyn.

3.9 Mae presenoldeb dinasyddion yr UE yn y DU wedi cynyddu'n sylweddol yn dilyn ehangu'r UE yn 2004, a roddodd ryddid symudiad i 450 miliwn o bobl ar draws 24 gwlad. Yn 2004, roedd y DU yn un o'r ychydig aelodau o'r UE na weithredodd

gyfyngiadau trosiannol i ymfudo o'r UE, gan ganiatáu mynediad rhydd i'w marchnad lafur i ddinasyddion yr aelod-wladwriaethau newydd, a arweiniodd at fwy na miliwn o bobl yn ymfudo i'r DU o wledydd A8 rhwng 2004 a 2011 (Knight *et al*., 2017). Nid oedd polisi integreiddio yn bodoli yn y DU ar y pryd i gyd-fynd â'r don ymfudo hon (Bijl & Verweij, 2012).

3.10 Mae dinasyddiaeth yr UE yn darparu hawliau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd i ddinasyddion yr UE, na chânt eu rhoi yn awtomatig i wladolion trydedd gwlad, megis yr hawl i breswylio, "symudiad rhydd" ar draws aelod-wledydd yr UE, mynediad i'r farchnad lafur, mynediad at fudd-daliadau nawdd cymdeithasol eang, a'r hawl i bleidleisio mewn etholiadau lleol. Oherwydd eu "rhyddid i symud" ledled Ewrop ynghyd â'r canfyddiad bod ymfudo o'r UE yn ffenomen ymfudo tymor byr, ychydig o sylw a roddwyd i'r broses o integreiddio (Ryan, 2018).

3.11 Fodd bynnag, gallai hawliau dinasyddion yr UE yn y DU gael eu dirymu ar ôl diwedd y cyfnod trosglwyddo.[6] Er mwyn parhau i fyw yn y DU ar ôl 30 Mehefin 2021, lansiodd y Swyddfa Gartref Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, y gall dinasyddion yr UE wneud cais iddo er mwyn cael statws preswylio'n sefydlog sy'n caniatáu iddynt aros yn y DU a chadw eu hawliau. Er mwyn sicrhau statws preswylio sefydlog, rhaid i ddinasyddion yr UE fodloni meini prawf *cymhwysedd*, megis eu bod wedi treulio o leiaf 5 mlynedd yn y DU a gwneud cais cyn 30 Mehefin 2021.[7] Bydd rhaid i ddinasyddion yr UE a fydd yn cyrraedd ar ôl dyddiad cau cyfnod trosglwyddo Tynnu Allan o'r UE ar 31 Rhagfyr 2020 wneud cais am ganiatâd i aros yn y DU o dan y trefniadau mewnfudo yn y dyfodol, gan greu cydraddoldeb cymharol mewn amgylchiadau i ymfudwyr o'r UE a'r tu allan i'r UE.

3.12 Ar ôl 1 Ionawr 2021, bwriedir cyflwyno system fewnfudo ar sail pwyntiau yn y DU.[8] Bydd pobl sy'n dymuno ymfudo i'r DU yn derbyn pwyntiau yn seiliedig ar feini prawf (trothwy cyflog, cael cynnig swydd 'fedrus', gwybodaeth o'r Saesneg a chymwysterau eraill), a bydd rhaid iddynt ennill 70 pwynt i gael fisa. Bydd y trothwy cyflog ar gyfer mewnfudwyr medrus y tu allan i'r UE yn cael ei ostwng o £30,000 i £25,600, tra bydd yr un rheolau yn cael eu gweithredu ar gyfer ymfudwyr o'r UE.

[6] Mae mwy o wybodaeth am statws dinasyddion yr UE yn y DU ar ôl i'r DU adael yr UE.
[7] Mae mwy o wybodaeth am y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.
[8] Mae mwy o wybodaeth am y system fewnfudo ar sail pwyntiau'r DU.

Bydd gweithwyr dros dro, myfyrwyr a gweithwyr medrus yn gymwys ar gyfer y fisâu ar sail pwyntiau.

## Ymfudwyr o’r UE yng Nghymru

3.13 Ar hyn o bryd mae Cymru yn gartref i oddeutu 80,000 o ddinasyddion yr UE.[9] O'i chymharu â gwledydd eraill y DU, mae Cymru'n dangos cyfran is o unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-27 gyda 2-3 y cant o'r boblogaeth wedi cael eu geni yng ngwledydd UE-27; tra yn Lloegr mae'r rhai a anwyd yn UE-27 yn cynrychioli tua 6 y cant o gyfanswm y boblogaeth (Ffigwr 3.1). Ers 2004, cafwyd tueddiad cynyddol o ran ymfudo o'r UE i'r DU. Ers 2016, yn dilyn canlyniad refferendwm yr UE, mae mewnlif ymfudwyr o’r UE wedi dechrau lleihau, ac yn 2018, am y tro cyntaf, gadawodd mwy o ddinasyddion yr UE y DU na chyrraedd.[10]

3.14 Ymfudo yw un o ysgogwyr newid poblogaeth yng Nghymru. Rhagwelir y bydd ymfudo net yn cynyddu poblogaeth Cymru 5 y cant yn y 25 mlynedd nesaf, ond yn absenoldeb mewnfudo net cadarnhaol, byddai disgwyl i boblogaeth Cymru ostwng 1 y cant (Cangiano, 2019). Mae ymfudiad o'r UE hefyd yn newid demograffeg Cymru. Mae'r ymfudwr cyffredin yn unigolyn ifanc, sengl sy'n penderfynu ymfudo yn bennaf oherwydd rhesymau cysylltiedig â gwaith (Wadsworth *et al.*, 2016). Mae hynny'n wir hefyd am bobl o Ddwyrain Ewrop sydd wedi bod yn ymfudo i Gymru ers 2004. Mae Ewropeaid ifanc o Ddwyrain Ewrop sy'n ymuno â marchnad lafur Cymru yn cydbwyso gweithlu Cymru sy'n heneiddio, a'r boblogaeth is sydd o oedran gweithio (Lemos, 2014).

3.15 Mae unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-27 yn cael eu dosbarthu ar draws holl Awdurdodau Lleol Cymru. Maent yn tueddu i fod yn fwy dwys yng Nghaerdydd, lle mae tua 17 y cant o gyfanswm yr unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-27 ac a ymfudodd i Gymru yn byw, ac yn Abertawe (12 y cant).[11]


---

[9] Adferwyd y data o set ddata’r SYG sy’n dwyn yr enw [“Population of the UK by country of birth and nationality: individual country data”](), a ryddhawyd yn 2020.

[10] Gweler troednodyn 3.

[11] Gweler troednodyn 3.

**Ffigwr 3.1: Cyfran yr unigolion a anwyd yn UE-27 ym mhob gwlad y DU 2010-2019**




*Ffynhonnell: Poblogaeth y DU yn ôl gwlad enedigol a chenedligrwydd: data gwledydd unigol SYG.*

3.16 Yn debyg i'r gwledydd eraill yn y DU, profodd Cymru fewnlifiad mawr o ymfudwyr o Wlad Pwyl ar ôl 2004. Daw'r boblogaeth a gynrychiolir fwyaf o blith ymfudwyr o'r UE-27 o Wlad Pwyl, gyda thua 27 y cant o'r rhai a anwyd yn UE-27 sy'n byw yng Nghymru yn Bwyliaid (Tabl 3.1).

**Tabl 3.1: Preswylwyr Cymru yn 2019 a anwyd yn UE-27 yn ôl eu gwlad enedigol**

| Gwlad enedigol | % o'r holl bobl a anwyd yn UE-27 sy'n byw yng Nghymru |
|---|---|
| Gwlad Pwyl | 27 |
| Yr Almaen | 17 |
| Gweriniaeth Iwerddon | 12 |
| Rwmania | 6 |
| Yr Eidal | 5 |
| Bwlgaria | 4 |
| Lithwania | 4 |
| Portiwgal | 4 |
| Gweriniaeth Tsiec | 3 |
| Ffrainc | 3 |

Ffynhonnell: Poblogaeth y DU yn ôl gwlad enedigol a chenedligrwydd: data gwledydd unigol SYG. Cyfnod Gorffennaf 2018 i Mehefin 2019.

## Effaith ymfudo o'r UE yng Nghymru

3.17 Mae ymchwil academaidd a pholisi-ganolog wedi archwilio effaith bosibl mewnfudo ar y wlad letyol ar draws gwahanol feysydd. Mae astudiaethau wedi archwilio effaith ymfudo ar ddemograffeg y boblogaeth, y farchnad lafur, cynhyrchiant, arloesedd, prisiau, gwasanaethau cyhoeddus ac effeithiau cymunedol.

3.18 Archwiliodd un maes ymchwil arwyddocaol effaith bosibl ymfudo ar ganlyniadau'r farchnad lafur i'r boblogaeth frodorol, yn enwedig cyflogaeth a chyflogau.[12] Dangosodd tystiolaeth flaenorol bod dyfodiad ymfudwyr o Ddwyrain Ewrop wedi cael effaith gadarnhaol ar gyflogau gweithwyr â sgiliau uchel, tra bod maint yr effaith negyddol ar weithwyr â sgiliau isel naill ai'n fach iawn neu ddim o gwbl (Lemos, 2014; Y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo, 2018). Yn ogystal, nid yw mewnfudwyr yn effeithio ar gyflogaeth gyffredinol preswylwyr brodorol, er y gallai hyn amrywio o safbwynt unigolion â sgiliau uchel a sgiliau isel (Y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo, 2018). Yn ôl Y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo (2014), mae'r gystadleuaeth rhwng ymfudwyr a brodorion yn cael ei lleihau pan gyflogir ymfudwyr o'r UE mewn "swyddi anodd eu llenwi", sy'n golygu nad oes cyflenwad llafur lleol na pharu-sgiliau ar gyfer swyddi gwag penodol. Yn wir, mae amrywiaeth eang o sectorau Cymru yn dibynnu ar lafur yr UE, gan gynnwys y sector iechyd a gofal cymdeithasol, y diwydiant twristiaeth, a'r sector adeiladu (Llywodraeth Cymru, 2017). Yn benodol, mae pobl o Ddwyrain Ewrop yn tueddu i gael eu cyflogi mewn swyddi sgiliau isel y maent yn aml yn or-gymwysedig ar eu cyfer, ac wedi'u canoli'n bennaf mewn swyddi elfennol a gweithredwyr peiriannau, yn y sectorau gweithgynhyrchu a thwristiaeth, gan gynnwys gwestai a bwytai (Lemos, 2014).

3.19 Yn ôl Y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo (2018), nid yw ymfudwyr o'r UE wedi cynyddu'r galw am wasanaethau iechyd na'u costau. Mae cyfraniad mewnfudwyr at adnoddau ariannol yn fwy na chost defnyddio gwasanaethau iechyd. Gellid priodoli hyn yn rhannol i broffil oedran cyfartalog mewnfudwyr ochr yn ochr â'r ffaith nad yw mewnfudwyr yn gyfarwydd â system iechyd y DU (Arsyllfa Wledig Cymru, 2006). Nid yw'r ymchwil gyfredol wedi canfod unrhyw dystiolaeth bod ansawdd gwasanaethau gofal iechyd wedi'i leihau gan fewnfudo.

[12] Mae mwy o wybodaeth am y system fewnfudo ar sail pwyntiau'r DU.

3.20 Ar gyfartaledd, mae ymfudo dinasyddion yr UE i Gymru wedi bod yn gadarnhaol yn ariannol, gyda threthi cyfartalog yn cael eu talu yn fwy na'r budd-daliadau cyfartalog a dderbyniwyd (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae hyn yn fwy i ymfudwyr o’r UE-13+,[13] o'i gymharu â chyfraniad cyllidol net ymfudwyr o Aelod-wladwriaethau Newydd.[14] Mae ansicrwydd ynghylch i ba raddau y gellir priodoli'r bwlch mawr rhwng trethi a budd-daliadau i'r ffaith nad yw ymfudwyr yn gwneud cais am yr holl fudd-daliadau y maent yn gymwys i’w cael oherwydd gwybodaeth anghyflawn.

3.21 Mae myfyrwyr yr UE yn cyfrannu at economi Cymru trwy ffioedd dysgu, gwariant cynhaliaeth a gwariant ffrindiau a theulu yn ymweld. Dengys tystiolaeth bod myfyrwyr yr UE sy'n byw yng Nghymru wedi creu swyddi amser llawn ac wedi cynyddu cynhyrchiant diwydiannau Cymru. Yn 2013/14, amcangyfrifwyd bod un swydd amser llawn yn cael ei chynhyrchu am bob pum myfyriwr o’r UE, a chynhyrchodd diwydiannau Cymru allbynnau o oddeutu £20k am bob myfyriwr o’r UE (Prifysgolion Cymru, 2015). Y tu hwnt i'r effaith economaidd uniongyrchol, mae myfyrwyr yr UE yn cynnig buddiannau anuniongyrchol i Gymru, gan gynnwys hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i dwristiaid a hyrwyddo prifysgolion Cymru (Oxford Economics, 2011).

3.22 Camsyniad cyffredin yw bod mewnfudo'n gysylltiedig â throsedd. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos nad yw ymfudo yn effeithio ar droseddu yng Nghymru, gan ystyried gwledydd A8 a gwledydd nad ydynt yn A8 ar wahân (Jaitman & Machin, 2013).

### Tystiolaeth ar integreiddio ymfudwyr o’r UE yng Nghymru

3.23 Ar ôl 2004 ac esgyniad gwledydd Canol a Dwyrain Ewrop i'r UE, canolbwyntiodd astudiaethau ar y potensial o integreiddio'r ymfudwyr newydd hyn yn y DU, ac yn fwy penodol, ymfudwyr o Wlad Pwyl. Mae Pwyliaid yn perthyn i'r grŵp mwyaf o bobl yr UE sy'n byw yng Nghymru. Yn ôl cyfrifiad Cymru 2001 a 2011, cynyddodd nifer y Pwyliaid sy'n byw yng Nghymru o 1,427 yn 2001 i 18,023 yn 2011.[15] Roedd

[13] Mae gwledydd EU-13 + yn cynnwys Awstria, Gwlad Belg, Denmarc, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Gwlad Groeg, yr Eidal, Lwcsembwrg, yr Iseldiroedd, Portiwgal, Sbaen, Sweden, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, Norwy a'r Swistir.

[14] Mae Aelod-wladwriaethau newydd yn cynnwys Bwlgaria, Croatia, Gweriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Malta, Rwmania, Slofacia, Slofenia.

[15] The Migration Observatory, ‘Changes to the migrant population of Wales 2001-2011’, Mawrth 2014.

mewnfudo dros dro yn gyffredin ymysg Pwyliaid, yn enwedig rhai ifanc a ddaeth i'r DU i weithio neu i barhau â'u hastudiaethau (Okólski & Salt, 2014).

3.24 Un o'r prif rwystrau i integreiddio a wynebai ymfudwyr A8 oedd eu sgiliau cyfyngedig mewn Saesneg neu Gymraeg. Yn benodol, roedd integreiddio diwylliannol ac economaidd Pwyliaid yn dibynnu'n fawr ar eu sgiliau iaith (Knight *et al.* 2017). Roedd Pwyliaid â sgiliau cyfyngedig mewn iaith yn canfod Saesneg fel y prif rwystr i greu cysylltiadau â phobl leol. Ar y llaw arall, roedd gan ymfudwyr o Wlad Pwyl oedd â gwybodaeth dda o'r Saesneg gyfleoedd cyflogaeth gwell, a oedd yn eu helpu i ehangu eu rhwydweithiau tu draw i Bwyliaid eraill, gan arwain at fwy o integreiddio. Mae hyfedredd iaith hefyd yn rhwystr i fynediad at wasanaethau, yn enwedig i weithwyr â sgiliau isel. Yn ôl Arsyllfa Wledig Cymru (2006), cafodd pobl o Ddwyrain a Chanol Ewrop anawsterau wrth gyrchu gwasanaethau iechyd, gan nad oeddent yn gyfarwydd â'r system iechyd yn y DU, ac nad oedd eu hanes iechyd yn hygyrch i feddygon. Hefyd, nid oedd rhai ohonynt â Saesneg a/neu Gymraeg digon da i drafod eu problemau iechyd.

3.25 Mae'r un adroddiad yn trafod integreiddio mewnfudwyr A8 mewn cymunedau gwledig yng Nghymru. Nid oedd mewnfudwyr yn rhyngweithio llawer â phobl leol, a oedd yn dwysáu'r amgylchedd a oedd eisoes yn elyniaethus rhwng y ddau grŵp. Roedd llawer o ragfarn hefyd yn erbyn ymfudwyr, a gyhuddwyd o achosi problemau yn y cymunedau. Cafodd Pwyliaid brofiadau o hiliaeth a senoffobia ledled y DU, gyda mwy o achosion mewn cymdogaethau difreintiedig (Rzepnikowska, 2019).

3.26 Er bod y llenyddiaeth wedi methu â darparu tystiolaeth gref o effaith negyddol ymfudo, mae arolygon yn datgelu bod cyfran sylweddol o wladolion y DU sy'n byw yng Nghymru yn parhau i fod ag agweddau negyddol tuag at ymfudo. Yn 2011, nid oedd gan 29 y cant o'r cyfranogwyr yn Astudiaeth Etholiad Cymru farn gadarnhaol am bobl o Ddwyrain Ewrop sy'n byw yng Nghymru.[16] Yn 2013, roedd 71 y cant o gyfranogwyr Cymru yn Arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain yn credu bod gweithwyr ymfudol yr UE yn gwneud mwy o ddrwg nag o les yng Nghymru (Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, 2016), megis llenwi swyddi gwag y gallai

[16] Adferwyd hwn o bost blog yr Athro Scully "A Bit More on Prejudice in Wales", a gyhoeddwyd ym mlog Prifysgol Caerdydd yn 2016.

brodorion eu llenwi, neu roi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus. Awgryma arolygon mwy diweddar bod pobl Gymru yn fwy tebygol o gefnogi'r toriad mewn mewnfudo na phobl yng ngweddill y DU, a'u bod yn llai tosturiol tuag at ymfudwyr o'r UE na dinasyddion eraill y DU (Llywodraeth Cymru, 2017). Yn ogystal, daeth y ddadl ar fewnfudo yn ganolog i ymgyrch refferendwm yr UE 2016, ac fe'i hystyriwyd yn un o brif ysgogwyr y pleidleisiau Gadael. Roedd hanner y rhai a gredai fod mewnfudo yn niweidio'r economi yn gwrthwynebu aelodaeth o'r UE (Agweddau Cymdeithasol Prydain).[17]

### Ymfudwyr o'r UE yng Nghymru ar ôl penderfyniad y DU i adael yr UE

3.27 Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan Guma a Dafydd Jones (2019), ar ôl y refferendwm, nododd ymfudwyr o'r UE eu bod yn teimlo'n fwy pryderus ac ansicr nag o'r blaen - roedd llawer o ansicrwydd ynglŷn â'u hawliau cyfreithiol yn y DU a'u dyfodol yng Nghymru, ac roedd llawer ohonynt wedi profi gelyniaeth gan bobl leol. Trwy ddwysáu ansicrwydd pobl leol tuag at fewnfudo, ac ansicrwydd ymfudwyr ynghylch eu arhosiad parhaol yng Nghymru, effeithiodd y refferendwm hefyd ar gydlyniant cymunedol, gan amharu ar integreiddio ymfudwyr o'r UE a'u cyfranogiad tuag at gymunedau Cymru.

3.28 Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf yn dangos, ym mis Mehefin 2020, bod nifer yr unigolion a anwyd yn UE-27 sy'n byw yng Nghymru a wnaeth gais am y statws Preswylio'n Sefydlog oddeutu 60,000.[18] Fodd bynnag, yn ôl Sumption (2020) nid yw'n bosibl cymharu nifer y bobl y rhoddwyd statws iddynt gydag amcangyfrifon poblogaeth dinasyddion swyddogol yr UE i amcangyfrif cyfran y dinasyddion UE-27 a gafodd statws, oherwydd (i) nad yw nifer y bobl sy'n gymwys ar gyfer Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn hysbys, (ii) nad yw nifer dinasyddion yr UE sydd wedi gadael y wlad chwaith yn hysbys, (iii) mae'r ystadegau'n seiliedig ar amcangyfrifon o boblogaeth dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru, (iv) gallai fod oedi o ran ceisiadau, er enghraifft gallai rhywun sydd o bosib yn gweithio yn Lloegr ond yn byw yng Nghymru wneud cais am statws sefydlog yn Lloegr. Yn

[17] Mae mwy o wybodaeth am Agweddau Cymdeithasol Prydain.
[18] Y Swyddfa Gartref, Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ystadegau chwarterol Mehefin 2020.

ogystal, er y gall dinasyddion Gwyddelig wneud cais i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, mae llawer yn annhebygol o wneud hynny oherwydd gallant symud yn rhydd a phreswylio yn y DU o dan y cytundeb Ardal Deithio Gyffredin.

3.29 Mae prosiect Hawliau Dinasyddion yr UE (EUCR), a ariennir gan Gronfa Drosglwyddo Undeb Ewropeaidd Llywodraeth Cymru, yn rhan o ymdrech barhaus i annog dinasyddion yr UE i aros yng Nghymru. Nod y prosiect yw nodi anghydraddoldebau mewn cyfleoedd a chanlyniadau ac i ba raddau y mae dinasyddion yr UE yn cael eu hintegreiddio i gymunedau Cymru, yn ogystal â sicrhau bod gan bobl fynediad at gyngor priodol ac yn cael eu hamddiffyn rhag camfanteisio.

## Mesur integreiddio

3.30 Mae integreiddio mewnfudwyr yn bwnc a drafodir yn eang yn y llenyddiaeth. Fel y soniwyd yn yr adran flaenorol, ystyrir integreiddio fel cysyniad aml-ddimensiwn, sy'n ymdrin â dimensiynau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a gwleidyddol. Yn wir, er nad oes unrhyw feysydd integreiddio cytunedig y dylid eu trosi i fesur integreiddio, cydnabyddir yn eang y dylid asesu integreiddio ar draws gwahanol barthau, yn hytrach na chanolbwyntio ar bwnc penodol (Threadgold *et al.*, 2008; Goodhart & Norrie, 2016).

3.31 Nododd y Comisiwn Ewropeaidd nifer o ddangosyddion yn ymwneud â phedwar parth, gan gynnwys cyflogaeth, addysg, cynhwysiant cymdeithasol a dinasyddiaeth weithredol. Archwiliwyd dangosyddion Zaragoza, fel y cawsant eu henwi, mewn adroddiad yn 2013 (Huddleston, Niessen & Tjaden, 2013). Cytunwyd ar y dangosyddion gan yr Aelod-wladwriaethau ac mewn ffordd fel eu bod yn caniatáu cymhariaeth ar draws gwledydd. Mae'r ffynonellau data a awgrymir yn gyffredin i fesur dangosyddion o'r fath yn cynnwys Arolwg Llafurlu'r UE (UE-LFS), Ystadegau'r UE ar Incwm ac Amodau Byw (UE-SILC), Rhaglen Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol OECD (PISA) ac ystadegau ymfudo Eurostat. Mae'r OECD, ar y cyd â'r Comisiwn Ewropeaidd, yn mabwysiadu rhai o'r dangosyddion Zaragoza yn yr adroddiad "Settling In 2018: Indicators of Immigrant Integration", sy'n cymharu canlyniadau integreiddio ar draws gwahanol wledydd, gan gwmpasu ystod o barthau, gan gynnwys llafur, addysg, amodau byw, ac ymgysylltu dinesig (OECD/EU, 2018).


3.32 Yng nghyd-destun y DU, datblygodd y Swyddfa Gartref Fframwaith Dangosyddion Integreiddio 2019. Rhennir y dangosyddion yn 4 grŵp gan gynnwys cyfanswm o 14 parth. Y 4 grŵp yw: marcwyr a modd, cysylltiadau cymdeithasol, hwyluswyr a sylfaen. Mae marcwyr a modd yn cynnwys dangosyddion integreiddio sydd hefyd yn effeithio ar integreiddio mewn meysydd eraill. Enghreifftiau o'r dangosyddion hyn yw amodau gwaith, tai ac iechyd. Mae cysylltiadau cymdeithasol yn pwysleisio pwysigrwydd perthnasoedd yn y broses integreiddio ac yn cynnwys dangosyddion sy'n mesur bondiau a chysylltiadau cymdeithasol, megis cymryd rhan yn y gymuned leol, yr ymdeimlad o berthyn i'r ardal breswyl, a rhyngweithio rhwng unigolion o wahanol gefndiroedd. Mae hwyluswyr yn cynnwys ffactorau sy'n ei gwneud hi'n haws integreiddio, fel sgiliau iaith neu'r dangosyddion cynhwysiant digidol a ychwanegwyd yn ddiweddar.[19] Yn olaf, mae sylfaen yn mesur cyfranogiad dinasyddion a anwyd dramor ym mywyd cyhoeddus y wlad ac yn cynnwys y tebygolrwydd o bleidleisio a cheisiadau am ddinasyddiaeth.

[19] Adeiladwyd y fframwaith hwn ar fersiwn flaenorol, a gyhoeddwyd yn 2004 (Ager & Strang, 2004). Roedd y dangosyddion a ychwanegwyd yn y fersiwn newydd yn ymwneud yn bennaf â hamdden, a sgiliau digidol, gan fod y cyntaf yn arwydd da o weithgaredd cyhoeddus sy'n hwyluso integreiddio, ac mae'r olaf yn hwyluso cyfathrebu a mynediad at wasanaethau.

# 4. Mesur integreiddio dinasyddion yr UE yng Nghymru – Dadansoddiad meintiol

## Methodoleg

4.1 Bydd yr astudiaeth gyfredol yn ymdrin â dangosyddion allweddol i werthuso integreiddio’r boblogaeth a anwyd yn yr UE-27 sy'n byw yng Nghymru a gynhwyswyd yn Fframwaith Dangosyddion Integreiddio 2019 y Swyddfa Gartref. Bydd yr adran hon yn canolbwyntio ar ddangosyddion integreiddio sy'n ymdrin â phedwar categori eang: cyflogaeth, tai, iechyd a budd-daliadau, ynghyd â sgiliau iaith a hunaniaeth genedlaethol. Dewiswyd y pedwar categori o ddangosyddion integreiddio yn seiliedig ar argaeledd data.




4.2 Trwy gydol yr adroddiad, mae canlyniadau unigolion a anwyd yng ngwledydd yr UE-27 ac sy'n byw yng Nghymru yn cael eu cymharu â phobl a anwyd yng Nghymru ac sy'n preswylio yng Nghymru. Diffinnir unigolion a anwyd yng ngwledydd yr UE-27 fel y rhai a anwyd yn un o 27 aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd, tra bod poblogaeth Cymru yn cynnwys preswylwyr a anwyd yng Nghymru.

4.3 Prif ffynhonnell y data yw'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APS). Cyhoeddir yr arolwg APS bob chwarter ac mae'n cynnwys 12 mis o ddata. Mae'n cyfuno dwy don o'r Arolwg Llafurlu (LFS) a hwb ychwanegol i'r sampl ar gyfer Cymru, yr Alban a Lloegr. Mae'r set ddata yn darparu gwybodaeth economaidd-gymdeithasol ar gyfer tua 285,000 o unigolion ledled y DU. Cwmpas y prosiect yw cyflwyno canlyniadau ar y dangosyddion integreiddio gan ddefnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael.

Felly, bydd canlyniadau'n cael eu mesur drwy ddefnyddio data a gasglwyd rhwng Hydref 2018 a Medi 2019.[20]

4.4 Yn yr APS, rhennir gwledydd UE-27 yn UE-14, UE-8, UE-2 ac UE arall. Yn ein dadansoddiad, byddwn yn canolbwyntio ar bobl a anwyd yng ngwledydd UE-27, UE-14 ac UE-8. Oherwydd cyfyngiad maint sampl, ni fyddwn yn canolbwyntio ar UE-2 a'r UE arall fel categorïau ar wahân.

4.5 Mae'r sampl yn cynnwys 739 o bobl a anwyd yn UE-27 sy'n byw yng Nghymru; o'r rhain, ganwyd 275 yng ngwledydd UE-8, ganwyd 388 yn UE-14, ac roedd 20,483 yn ddinasyddion a anwyd yng Nghymru (Tabl 4.2). Mae mwy na 70 y cant o'r unigolion a anwyd yn UE-14 a gynhwyswyd yn y sampl wedi treulio mwy na deng mlynedd yng Nghymru, tra bod ymfudwyr UE-8 yn fwy diweddar, gyda mwy na 50 y cant o'r sampl wedi treulio deng mlynedd neu lai yng Nghymru (Tabl 4.1).

4.6 Mae'n werth nodi bod gan yr APS rai cyfyngiadau. Yn gyntaf, nid yw'n cynnwys preswylwyr sefydliadau cymunedol, fel hosteli. Yn ail, gallai rhai grwpiau o'r bobl a anwyd dramor gael eu tangynrychioli oherwydd sgiliau iaith gwael. Yn drydydd, nid yw maint fach y sampl  yn caniatáu ar gyfer dadansoddiad ar lefel ddaearyddol fwy manwl (e.e. Awdurdod Lleol). Yn olaf, oherwydd y nifer fach o unigolion a anwyd yn UE-27 sy'n byw yng Nghymru a gofnodwyd yn y data, mae'n annhebygol y bydd unrhyw wahaniaethau ar draws grwpiau yn ystadegol arwyddocaol. Golyga hyn nad yw'r gwahaniaethau'n dod o feintiau sampl digon mawr i ddod i gasgliadau cadarn ohonynt.

4.7 Rydym yn ategu’r Arolwg Poblogaeth Blynyddol gyda data a gasglwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (2018). Mae'r set ddata yn darparu gwybodaeth am nifer y ceisiadau am fudd-daliadau a dderbyniwyd. Mae data'n cael ei ddadgyfuno yn ôl gwlad enedigol yr ymgeisydd, fel y'i cofnodir yn y cofrestriad rhif Yswiriant Gwladol (NINO).

[20] At ddibenion y prosiect gwnaethom archwilio setiau data eraill fel Deall Cymdeithas a'r Arolwg Adnoddau Teulu. Fodd bynnag, oherwydd maint sampl bach neu ddiffyg gwybodaeth fanwl am wlad enedigol yr ymatebwyr ni ellid defnyddio'r ffynonellau data hyn ar gyfer y dadansoddiad meintiol.

**Tabl 4.1. Nodweddion demograffig poblogaethau a anwyd yn yr UE-14, UE-8, a Chymru yn 2018-19**

| | Geni yn UE-14 | Geni yn UE-8 | Geni yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| **Oed ar gyfartaledd** | 44 | 33 | 42 |
| **Menywod** | 51% | 53% | 51% |
| **Statws priodasol** | | | |
| Sengl | 48.9% | 49.7% | 46.4% |
| Priod, byw gyda chymar | 35.1% | 46.5% | 38.9% |
| Priod, wedi gwahanu oddi wrth y cymar | 1.7% | 0.4% | 1.3% |
| Wedi ysgaru | 7.8% | 2.7% | 7.1% |
| Gweddw | 6.2% | 0.6% | 6.2% |
| Arall | 0.3% | 0.0% | 0.1% |
| **Amser a dreuliwyd yng Nghymru** | | | |
| Llai na 5 mlynedd | 14.2% | 20.1% | - |
| Rhwng 5 a 10 mlynedd | 14.0% | 33.7% | - |
| Mwy na 10 mlynedd | 71.8% | 46.2% | - |

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019)

**Tabl 4.2. Maint sampl ac amcangyfrifon poblogaeth preswylwyr Cymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol**

| | Geni yn UE-14 | Geni yn UE-8 | Geni yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| **Maint y sampl** | 388 | 275 | 20,483 |
| **Amcangyfrifon poblogaeth** | ~39,000 | ~29,000 | ~2,263,000 |

Ffynonellau: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019) a Poblogaeth y DU yn ôl gwlad enedigol a chenedligrwydd: data gwledydd unigol SYG. Cyfnod Gorffennaf 2018 i Mehefin 2019

Nodiadau

(1) Sylwch nad yw'r tabl uchod yn cynnwys pawb sy'n byw yng Nghymru: ganwyd tua 21% o drigolion Cymru mewn man arall yn y DU, a ganwyd 3.3% mewn gwlad y tu allan i'r UE. Oherwydd niferoedd sampl bach, mae'r tabl hefyd yn eithrio ymfudwyr o Fwlgaria, Rwmania, Croatia, Malta a Chyprus.

(2) Gellir gweld amcangyfrifon poblogaeth y rhai a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy'n byw yng Nghymru yn set ddata'r SYG - Poblogaeth y DU yn ôl gwlad enedigol a chenedligrwydd: data gwledydd unigol SYG. Cyfnod Gorffennaf 2018 i Fehefin 2019. Lluniwyd amcangyfrif poblogaeth Cymru a anwyd yn byw yng Nghymru trwy ddefnyddio'r fformiwla ganlynol: (Nifer y preswylwyr a anwyd yng Nghymru, fel y'u cyfrifwyd yng Nghyfrifiad 2011) / (Cyfanswm y boblogaeth yng Nghymru, fel y'u cyfrifwyd yng Nghyfrifiad 2011) x Maint sampl preswylwyr Cymru a anwyd yng Nghymru.

## Cyflogaeth

**Y prif ganfyddiadau ar gyflogaeth:**

- Mae'r mesur cyfradd diweithdra yn arwydd o allu gweithwyr tramor i gael mynediad i'r farchnad lafur. Mae cyfradd ddiweithdra menywod UE-27 yn uwch (9.2 y cant) na'u cymheiriaid yng Nghymru (3.7 y cant), tra bod cyfran dynion di-waith yr UE-27 yn is (2.1 y cant) o'i chymharu â dynion o Gymru (5.2 y cant).
- Mae diwydiant, math o alwedigaeth a dosbarthiad sgiliau yn dra gwahanol rhwng gweithwyr UE-8 ac UE-14.
- Mae gweithwyr UE-8 wedi'u crynhoi mewn galwedigaethau â sgiliau isel ac yn llai tebygol o dderbyn hyfforddiant neu fod â rolau goruchwylio.
- Mae gweithwyr UE-8 wedi'u tangynrychioli mewn swyddi sector cyhoeddus o gymharu ag UE-14, gyda dim ond 3.3 y cant o ddynion UE-8 yn gweithio mewn swyddi sector cyhoeddus o'i gymharu â 13.4 y cant o weithwyr gwrywaidd UE-14.
- Mae cyfradd uwch o unigolion a anwyd yng ngwledydd yr UE-27 yn gweithio mewn swyddi y maent wedi'u gor-gymhwyso ar eu cyfer na phobl a anwyd yng Nghymru. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos pobl o wledydd UE-8, lle mae 58 y cant o weithwyr benywaidd UE-8 a 41 y cant o weithwyr gwrywaidd UE-8 yn cael eu cyflogi mewn galwedigaethau y maent yn or-fedrus ar eu cyfer.

4.8 Fel yr amlygwyd yn Fframwaith Dangosyddion Integreiddio'r Swyddfa Gartref 2019, mae cyflogaeth yn cynrychioli canlyniad integreiddio a ffordd o gefnogi cynhwysiant. Mae darparu mynediad cyfartal i bobl i'r farchnad lafur waeth beth fo'u gwlad wreiddiol yn arwydd o bolisïau integreiddio llwyddiannus. Ar yr un pryd, trwy gyflogaeth, gall pobl gyrchu rhwydweithiau cymdeithasol lleol, gwella eu sgiliau iaith, cymryd rhan a chyfrannu at y gymdeithas, ac ennill annibyniaeth economaidd, sy'n cyflymu eu proses integreiddio ymhellach (McGinnity *et al.*, 2012). Yn ogystal â mynediad at gyflogaeth, mae integreiddio'r farchnad lafur hefyd yn cynnwys ansawdd y swydd. Rhaid ystyried dimensiynau fel amodau gwaith a lefel swydd (Morris & Hochlaf, 2019).

4.9 Mae'r adran hon yn archwilio amodau cyflogaeth y boblogaeth a anwyd yn UE-27 o'i chymharu ag unigolion a anwyd yng Nghymru. Mae'r sampl yn cynnwys y boblogaeth oedran gweithio rhwng 16 a 64. Mae unigolion cyflogedig yn cynnwys gweithwyr rhan-amser a llawn amser a gofnodwyd fel gweithwyr, hunangyflogedig, ac o dan gynllun cyflogaeth neu hyfforddiant y llywodraeth. Mae data'n cael ei


ddadgyfuno yn ôl rhanbarth tarddiad (UE-14 yn erbyn gwledydd UE-8), a, lle bo hynny'n bosibl, yn ôl rhyw, nifer y blynyddoedd a dreuliwyd yng Nghymru, a sgiliau, i dynnu sylw at wahaniaethau mewn patrymau integreiddio ar draws unigolion a anwyd yn UE-27 sy'n byw yn Cymru.

## Cyfradd diweithdra a'r math o gontract

4.10 Dengys Ffigwr 4.1 gyfradd diweithdra preswylwyr a anwyd yn UE-27 yng Nghymru o'i gymharu â phreswylwyr Cymru. Mae cyfradd diweithdra menywod UE-27 yn uwch (9.2 y cant) na'u cymheiriaid yng Nghymru (3.7 y cant), tra bod cyfradd dynion di-waith yr UE-27 yn is (2.1 y cant) o'i chymharu â dynion o Gymru (5.2 y cant) . Mae'r mesur cyfradd diweithdra yn arwydd o allu unigolion i gael mynediad i'r farchnad lafur, ond prin yw'r dystiolaeth y mae'n ei darparu ar sefydlogrwydd swyddi a'r math o swyddi y mae dinasyddion tramor yn gallu eu cyrchu.

4.11 Gallai'r ffaith bod y gyfradd diweithdra ymhlith dynion UE-27 yn is o'i gymharu â menywod awgrymu (i) mae'n anoddach i fenywod ddod o hyd i swydd, (ii) y gallai menywod fod wedi penderfynu symud i Gymru am resymau heblaw gwaith, megis dilyn eu partneriaid a ymfudodd am resymau gwaith, (iii) gall menywod fod yn fwy tebygol o ymgymryd â rôl ddi-gyflog e.e. gofalu am blant.

**Ffigwr 4.1. Cyfradd diweithdra yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol**




Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019)

4.12 Mae cyfradd diweithdra dynion UE-27 sy'n byw yng Nghymru yn is o’i gymharu â chyfradd diweithdra dynion UE-27 sy'n byw yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (Tabl 4.3). I'r gwrthwyneb, mae menywod UE-27 sy'n byw yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith o'u cymharu â'r rhai sy'n byw yng ngwledydd eraill y DU.


**Tabl 4.3. Cyfradd diweithdra unigolion a anwyd yn UE-27 sy’n byw yn y DU yn 2018-19 yn ôl gwlad breswyl**

| | Dynion | Menywod |
|---|---|---|
| **Cymru** | 2.1% | 9.2% |
| **Lloegr** | 2.3% | 3.5% |
| **Yr Alban** | 4.1% | 6.6% |
| **Gogledd Iwerddon** | 2.6% | 7.2% |

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019)


4.13 Mae sefydlogrwydd swydd a'r math o gontract yn arwydd da o amodau cyflogaeth gweithwyr. Dengys Ffigwr 4.2 bod gweithwyr UE-27, yn ddynion a menywod, yn fwy tebygol o gael eu cyflogi'n llawn amser o’i gymharu â gweithwyr o Gymru. Yn ôl Ffigwr 4.3, mae gan fenywod UE-27 a Chymru debygolrwydd tebyg o gael swydd barhaol (92.9 y cant a 93.2 y cant, yn y drefn honno), tra bod 90.4 y cant o weithwyr gwrywaidd UE-27 â swydd barhaol o’i gymharu â 94.9 y cant o weithwyr gwrywaidd o Gymru. Fodd bynnag, mae'r gymhariaeth rhwng UE-8 ac UE-14 yn dangos bod gweithwyr UE-8 â'r un tebygolrwydd â'u cymheiriaid yng Nghymru o gael swydd barhaol, tra bod gan 12 y cant o weithwyr gwrywaidd UE-14 swydd dros dro. Mae'r ffigyrau hyn yn awgrymu bod unigolion a anwyd yn UE-27 sy'n byw yng Nghymru yn dangos lefel dda o fynediad i'r farchnad lafur, gyda lefel gymharol uchel o weithgaredd a sefydlogrwydd cyflogaeth o’i gymharu â gweithwyr o Gymru.

**Ffigwr 4.2. Canran y bobl gyflogedig sy’n gweithio amser llawn yng Nghymru 2018-19 yn ôl gwlad enedigol**




Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019)

**Ffigwr 4.3. Canran y bobl gyflogedig â swydd barhaol sy’n byw yng Nghymru 2018-19 yn ôl gwlad enedigol**





Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019)

### Hunangyflogaeth

4.14 Mae hunangyflogaeth mewnfudwyr yn ddangosydd o gynnydd economaidd ac integreiddio yn y wlad letyol (Guerra & Patuelli, 2010). Yn aml, mae hunangyflogaeth angen sgiliau iaith, gwybodaeth am y rheoliadau, y farchnad lafur leol a rhwydweithiau busnes lleol, a mynediad at gyfalaf, a allai atal y boblogaeth dramor rhag dod yn entrepreneuriaid (McGinnity *et al.*, 2012). Yn ogystal, mae hunangyflogaeth yn cael ei ystyried yn arwydd o integreiddio gan ei fod yn datgelu bwriad tramorwyr i aros yn y wlad (Cyngor Ewrop, 1997).

4.15 Dengys Ffigwr 4.4 bod gweithwyr gwrywaidd UE-27 yn llai tebygol o fod yn hunangyflogedig (9.7 y cant) o'i gymharu â'u cymheiriaid yng Nghymru (15.3 y cant), yn enwedig gweithwyr UE-8 (6.5 y cant) o'i gymharu â gweithwyr UE-14 (11.5 y cant). Mewn cyferbyniad, mae gweithwyr benywaidd UE-27 yn fwy tebygol o fod mewn hunangyflogaeth na'u cymheiriaid yng Nghymru. Fel y soniwyd uchod, yn aml mae angen sgiliau iaith i ddod yn hunangyflogedig. Yn wir, gallai diffyg hyfedredd gweithwyr UE-8 yn y Saesneg a drafodwyd mewn astudiaethau blaenorol fod yn un o'r prif resymau dros fwlch o'r fath rhwng gweithwyr UE-8 ac UE-14 (Fernández-Reino, 2019; Knight *et al.*, 2017).


**Ffigwr 4.4. Cyfradd hunangyflogaeth gweithwyr sy'n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol**




Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019)

4.16 Mae cyfran y gweithwyr hunangyflogedig UE-27 yn cynyddu gyda'r amser a dreulir yng Nghymru (Ffigwr 4.5). Ar ôl mwy na deng mlynedd yng Nghymru, mae 14 y cant o weithwyr UE-14 a 10 y cant o weithwyr UE-8 yn hunangyflogedig. Mae cyfran y gweithwyr hunangyflogedig a gyrhaeddodd lai na phum mlynedd yn ôl yn llawer llai, yn enwedig y rhai a anwyd yn UE-8 (1.9 y cant). Mae'r bwlch hwn yn awgrymu y gallai dod yn hunangyflogedig fod angen sgiliau y mae'r rhai a anwyd yn UE-27 yn eu hennill dros amser, ac y gallai gweithwyr UE-8 gael mwy o anawsterau wrth eu caffael.

**Ffigwr 4.5. Cyfradd hunangyflogaeth gweithwyr a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy'n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl nifer o flynyddoedd ers cyrraedd**




Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019)


## Cyflogaeth sector cyhoeddus

4.17 Dangosydd integreiddio arall a ddefnyddir yn helaeth yw cyfran y mewnfudwyr a gyflogir yn y sector cyhoeddus. Gall y dangosydd hwn ddangos cyfle cyfartal rhwng brodorion a'r rhai a anwyd dramor yn y farchnad lafur, a gall cyflogaeth yn y sector cyhoeddus ddarparu model rôl ar gyfer integreiddio ar gyfer y sector preifat a'r gymdeithas ehangach (OECD/EU, 2015).

4.18 Dengys Ffigwr 4.6 bod gweithwyr UE-27 sy'n byw yng Nghymru, yn ddynion a menywod, yn llai tebygol o gael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus o'i gymharu â gweithwyr o Gymru. Fodd bynnag, mae'r dadgyfuno rhwng UE-8 ac UE-14 yn dangos bod gan weithwyr o wledydd UE-8 debygolrwydd cryn dipyn yn is o gael eu

cyflogi mewn galwedigaethau yn y sector cyhoeddus (13.7 y cant a 3.3 y cant o fenywod a dynion, yn y drefn honno) o'i gymharu â gweithwyr o wledydd UE-14 a gweithwyr o Gymru.

**Ffigwr 4.6. Preswylwyr cyflogedig yng Nghymru sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol**




Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019)

4.19 Yn ogystal, mae cyfran y gweithwyr UE-14 a gyflogir yn y sector cyhoeddus yn cael ei heffeithio rhywfaint gan yr amser a dreuliwyd yng Nghymru, gyda chanran y gweithwyr UE-8 mewn galwedigaethau sector cyhoeddus a dreuliodd fwy na deng mlynedd yng Nghymru yn llawer uwch o'i gymharu â'r rhai a gyrhaeddodd lai na phum mlynedd yn ôl (Tabl 4.4).

4.20 Mae gan wladolion yr UE hawl lawn i weithio yn sector cyhoeddus y DU,[21] gan gynnwys cwmnïau sy'n eiddo i'r wladwriaeth, cyrff y llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus. Mewn rhai achosion, mae hyn angen cydnabyddiaeth swyddogol o'u cymwysterau yn y wlad letyol.[22] Mae lefel cymhwyster y rhai a anwyd yn UE-27 yn wahanol ar draws grwpiau a thonnau ymfudo, ac efallai mai dyna'r rheswm y tu ôl i'r

[21] Mae hyn yn berthnasol tan 31ain Rhagfyr 2020.
[22] Mae mwy o wybodaeth am [“Access to jobs in the public sector”](#).

gwahaniaeth sydyn mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus rhwng gweithwyr UE-8 ac UE-14.

**Tabl 4.4. Y rhai a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy'n gweithio yn y sector preifat a chyhoeddus sy'n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl nifer o flynyddoedd ers cyrraedd**

| | Nifer o flynyddoedd ers cyrraedd Cymru | Sector preifat | Sector cyhoeddus |
|---|---|---|---|
| **Geni yn UE-14** | <5 mlynedd | 71.6% | 28.4% |
| | 5-10 mlynedd | 71.0% | 29.0% |
| | >10 mlynedd | 73.8% | 26.2% |
| **Geni yn UE-8** | <5 mlynedd | 100.0% | 0.0% |
| | 5-10 mlynedd | 94.1% | 5.9% |
| | >10 mlynedd | 87.3% | 12.7% |

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019)

4.21 Ar gyfartaledd, mae gan weithwyr UE-8 lefel is o gymwysterau o'i gymharu â gweithwyr UE-14. Fodd bynnag, mae cyfran y gweithwyr UE-8 ac UE-14 sydd â gradd neu gymhwyster cyfwerth a symudodd i Gymru lai na phum mlynedd yn ôl yn eithaf tebyg (43.2 y cant a 45.5 y cant, yn y drefn honno) (Tabl 4.5). Er gwaethaf y tonnau diweddaraf o ymfudwyr UE-8 ac UE-14 â chyrhaeddiad addysgol tebyg, mae bwlch cyson yn parhau o ran cyflogaeth yn y sector cyhoeddus rhwng y rhai a anwyd yn UE-14 ac UE-8 a dreuliodd lai na phum mlynedd yng Nghymru (Tabl 4.4). Mae hyn yn awgrymu y gellid esbonio'r gwahaniaeth cyflogaeth sector cyhoeddus rhwng gweithwyr UE-8 ac UE-14 gan ffactorau heblaw am eu cyrhaeddiad addysgol. Mae hefyd yn awgrymu y gallai fod gan y ddau grŵp fynediad gwahanol i gyfleoedd cyflogaeth gyhoeddus oherwydd rhwystrau penodol sydd prin yn diflannu dros amser.

**Tabl 4.5. Lefel addysg y rhai a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy’n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl nifer o flynyddoedd ers cyrraeddl**


| | | Gradd | AU | Safon_A | Graddau TGAU | Cymhwyster arall | Dim cymhwyster |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Geni yn UE-14** | <5 mlynedd | 45.5% | 3.1% | 25.7% | 1.8% | 5.0% | 18.9% |
| | 5-10 mlynedd | 58.4% | 2.1% | 20.1% | 10.0% | 6.5% | 3.0% |
| | >10 mlynedd | 34.3% | 12.1% | 13.3% | 21.0% | 15.5% | 3.8% |
| **Geni yn UE-8** | <5 mlynedd | 43.2% | 0.0% | 19.5% | 9.7% | 24.8% | 2.8% |
| | 5-10 mlynedd | 11.6% | 9.2% | 16.7% | 8.3% | 44.5% | 9.7% |
| | >10 mlynedd | 25.6% | 9.8% | 18.6% | 7.9% | 31.9% | 6.2% |

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019)

## Rôl hyfforddi a goruchwylio

4.22 Mae Fframwaith Dangosyddion y Swyddfa Gartref yn cynnwys a yw gweithwyr tramor yn derbyn hyfforddiant fel mesur o integreiddio. Mae hyfforddiant yn gwella gwybodaeth a chymwyseddau gweithwyr ac yn rhoi cyfle i adeiladu sgiliau a chefnogi integreiddio. Dengys Ffigwr 4.7 gyfran y gweithwyr a dderbyniodd swydd neu hyfforddiant addysgol yn ystod y tri mis diwethaf. Mae gweithwyr benywaidd UE-27 yn fwy tebygol o fod wedi derbyn hyfforddiant (29.6 y cant) o’i gymharu â gweithwyr benywaidd o Gymru (23.1 y cant), tra bod cyfran fwy o weithwyr gwrywaidd o Gymru wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar (20 y cant) o’i gymharu â gweithwyr UE-27 (15 y cant). Yn benodol, dim ond 13.8 y cant o weithwyr gwrywaidd UE-8 a dderbyniodd hyfforddiant, o'i gymharu â 17.4 y cant o UE-14 ac 20 y cant o weithwyr gwrywaidd o Gymru.

**Ffigwr 4.7. Gweithwyr sy’n byw yng Nghymru yn ymgymryd â hyfforddiant cysylltiedig â swydd yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol**





Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019)

4.23 Mesur arall o integreiddio a gynhwysir yn Fframwaith y Swyddfa Gartref yw cyfran yr ymfudwyr mewn rolau arwain/rheoli. Mae'n adlewyrchu graddfa'r dylanwad sydd gan weithwyr a anwyd dramor yn y gweithle, yn benodol, mewn prosesau gwneud penderfyniadau (Y Swyddfa Gartref, 2019). Dengys Ffigwr 4.8 bod gweithwyr benywaidd UE-27 yn llai tebygol o fod â rôl oruchwylio yn eu gweithle (26.5 y cant) o’i gymharu â menywod Cymreig (32.1 y cant), tra nad oes gwahaniaeth rhwng dynion a anwyd yn UE-27 a dynion Cymreig. Mae'r dadgyfuno rhwng gweithwyr UE-14 ac UE-8 yn dangos bod gweithwyr UE-8, yn fenywod a dynion, yn llai tebygol o fod yn oruchwylwyr na gweithwyr UE-14.

4.24 At ei gilydd, mae'r ffigyrau hyn yn dangos y gallai gweithwyr UE-8 fod â llai o ddylanwad yn eu gweithle, ac mae hyn yn arbennig o wir yn achos menywod. Fel y sylwyd o'r blaen, mae gweithwyr benywaidd UE-8 hefyd yn llai tebygol o fod wedi derbyn swydd neu hyfforddiant addysgol na gweithwyr benywaidd UE-14, sy'n cynrychioli cyfle a gollwyd i ddatblygu sgiliau a galluoedd i wella eu safle yn y gweithle.

**Ffigwr 4.8. Gweithwyr sy'n byw yng Nghymru mewn rolau goruchwylio yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol**




Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019)


## Galwedigaeth, diwydiant, a sgiliau


4.25 Mae cyflogaeth yn dibynnu ar lawer o ffactorau, megis sgiliau ac addysg. Mae'r adran hon yn dadansoddi sgiliau galwedigaethol a phrif alwedigaethau gweithwyr UE-27 a Chymru. Diffinnir lefelau sgiliau yn seiliedig ar alwedigaeth. Datblygodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) bedwar categori sgiliau yn seiliedig ar yr hyfforddiant sy'n ofynnol ym mhob galwedigaeth,[23] yn dilyn y Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC 2020). Mae galwedigaethau'n cael eu dosbarthu fel rhai sgiliau uchel, canolig-uchel, canolig-isel, ac isel.

4.26 Dengys Ffigwr 4.9 bod gwahaniaeth sylweddol yn y dosbarthiad o sgiliau galwedigaethol, yn seiliedig ar alwedigaeth, rhwng unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-27 a'r rhai a anwyd yng Nghymru. Mae cyfran y gweithwyr gwrywaidd o Gymru mewn galwedigaethau sgiliau uchel yn is (24.5 y cant) na chyfran gweithwyr UE-27 (27.1 y cant), tra bod llai o weithwyr benywaidd UE-27 yn cael eu cyflogi mewn galwedigaethau â sgiliau uchel (21.7 y cant) na gweithwyr benywaidd Cymreig (26.8 y cant).

[23] Gellir gweld strwythur a disgrifiad y categorïau sgiliau ar wefan y SYG,

**Ffigwr 4.9. Sgiliau galwedigaethol gweithwyr sy'n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol**




Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019)

4.27 Mae'r gymhariaeth rhwng gwledydd UE-8 ac UE-14 yn dangos bod gweithwyr UE-8 yn llawer mwy tebygol o gael eu cyflogi mewn galwedigaeth sgiliau canolig-isel a sgiliau isel o'i gymharu â gweithwyr UE-14, yn ogystal â phobl o Gymru. Dangosodd astudiaethau blaenorol ffigyrau tebyg a thynnwyd sylw at sut mae gwledydd UE-8 wedi'u crynhoi mewn swyddi sgiliau isel (Y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo, 2014; Lemos, 2014). Yn benodol, gall peidio â chydnabod cymwysterau ymfudwyr, diffyg tystlythyrau gan ymfudwyr, neu hyd yn oed ddiffyg gwybodaeth am swyddi gwag

egluro crynodiad gweithwyr UE-8 mewn galwedigaethau â sgiliau isel (International Organisation for Migration, 2013; Spencer & Sanders, 2016).

4.28 Nid yw'n syndod bod gwahaniaeth i'w gael hefyd ar draws diwydiant eu cyflogaeth (Tabl 4.6). Mae gweithwyr benywaidd UE-27 wedi'u crynhoi'n bennaf mewn dau sector: Dosbarthu, gwestai a bwytai (21.4 y cant) a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, addysg ac iechyd (39.2 y cant). Yn yr un modd, mae gweithwyr gwrywaidd UE-27 yn cael eu cyflogi'n bennaf mewn Dosbarthu, gwestai a bwytai (29.8 y cant) a'r diwydiant Gweithgynhyrchu (26.1 y cant). Yn ogystal, mae gweithwyr UE-8, yn ddynion a menywod, yn fwy dwys yn y diwydiant Gweithgynhyrchu, tra bod menywod a anwyd UE-14 yn fwy tebygol o gael eu cyflogi yn y diwydiant gweinyddol cyhoeddus, addysg ac iechyd.

**Tabl 4.6. Diwydiannau lle mae pobl yng Nghymru yn gweithio yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol**

| | Menywod | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cymru** | **UE-27** | **UE-14** | **UE-8** |
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | 0.8% | 0.6% | 1.5% | 0.0% |
| Ynni a dŵr | 0.7% | 1.2% | 0.0% | 2.4% |
| Gweithgynhyrchu | 4.2% | 16.0% | 4.0% | 25.4% |
| Adeiladu | 1.5% | 0.9% | 0.0% | 1.7% |
| Dosbarthiad, gwestai a bwytai | 21.2% | 21.4% | 20.8% | 23.4% |
| Trafnidiaeth a chyfathrebu | 2.2% | 3.4% | 5.1% | 2.5% |
| Bancio a chyllid | 12.1% | 12.5% | 11.9% | 14.4% |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus, addysg ac iechyd | 51.4% | 39.2% | 52.0% | 26.1% |
| Gwasanaethau eraill | 5.9% | 4.7% | 4.7% | 4.1% |
| | **Dynion** | | | |
| | **Cymru** | **UE-27** | **UE-14** | **UE-8** |
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | 3.0% | 0.8% | 1.8% | 0.0% |
| Ynni a dŵr | 3.5% | 2.8% | 1.4% | 4.9% |
| Gweithgynhyrchu | 16.0% | 26.1% | 18.0% | 33.4% |
| Adeiladu | 14.9% | 4.8% | 4.5% | 3.9% |
| Dosbarthiad, gwestai a bwytai | 17.4% | 29.8% | 30.9% | 32.1% |
| Trafnidiaeth a chyfathrebu | 9.3% | 8.1% | 8.0% | 9.0% |
| Bancio a chyllid | 13.8% | 11.1% | 11.2% | 9.5% |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus, addysg ac iechyd | 17.3% | 14.0% | 21.9% | 4.4% |
| Gwasanaethau eraill | 4.8% | 2.5% | 2.4% | 2.6% |

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019)

4.29 Mae gwahaniaethau yn y dosbarthiad sgiliau ar draws gweithwyr UE-27 hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn eu galwedigaethau (Tabl 4.7). Mae gweithwyr o Gymru yn dangos dosbarthiad mwy homogenaidd ar draws galwedigaethau, tra bod gweithwyr UE-14 wedi'u crynhoi mewn galwedigaethau sgiliau uchel ac UE-8 mewn rhai sgiliau isel. Mae cyfran fawr o weithwyr UE-14 yn cael eu cyflogi fel Rheolwyr, cyfarwyddwyr, ac uwch swyddogion neu mewn galwedigaethau Proffesiynol (tua 40 y cant o ddynion a menywod), o'i gymharu â 12.5 y cant o ddynion UE-8 a 5.8 y cant o fenywod UE-8. Mae gweithwyr UE-8 wedi'u canoli'n bennaf mewn galwedigaethau Elfennaidd (dynion a menywod fel ei gilydd) a galwedigaethau Gofalu, Hamdden a Gwasanaethau eraill).

**Tabl 4.7. Occupations o weithwyr sy'n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol**

| | Menywod | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cymru** | **UE-27** | **UE-14** | **UE-8** |
| Rheolwyr, cyfarwyddwyr, ac uwch swyddogion | 6.9% | 4.4% | 7.2% | 2.6% |
| Galwedigaethau proffesiynol | 20.0% | 17.4% | 30.7% | 3.2% |
| Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cyswllt | 12.4% | 11.5% | 13.8% | 10.3% |
| Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol | 15.1% | 10.6% | 6.8% | 13.8% |
| Galwedigaethau crefft medrus | 1.9% | 3.6% | 4.7% | 3.2% |
| Galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill | 19.7% | 16.3% | 14.1% | 18.6% |
| Galwedigaethau gwasanaethau gwerthu a chwsmeriaid | 12.3% | 4.2% | 3.9% | 5.1% |
| Gweithwyr prosesau, offer a pheiriannau | 1.2% | 8.6% | 5.1% | 12.0% |
| Galwedigaethau elfennol | 10.5% | 23.4% | 13.7% | 31.3% |
| | **Dynion** | | | |
| | **Cymru** | **UE-27** | **UE-14** | **UE-8** |
| Rheolwyr, cyfarwyddwyr, ac uwch swyddogion | 10.2% | 9.8% | 10.9% | 9.5% |
| Galwedigaethau proffesiynol | 14.3% | 17.3% | 30.2% | 3.0% |
| Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cyswllt | 14.1% | 10.0% | 17.9% | 2.8% |
| Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol | 4.7% | 1.9% | 1.7% | 2.6% |
| Galwedigaethau crefft medrus | 22.2% | 15.5% | 11.4% | 16.3% |
| Galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill | 3.9% | 4.2% | 6.6% | 1.9% |
| Galwedigaethau gwasanaethau gwerthu a chwsmeriaid | 5.9% | 4.6% | 7.2% | 3.5% |
| Gweithwyr prosesau, offer a pheiriannau | 12.0% | 21.0% | 4.8% | 37.8% |
| Galwedigaethau elfennol | 12.7% | 15.7% | 9.3% | 22.5% |

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018- 2019)

4.30 Fel y nodwyd uchod, mae angen set wahanol o sgiliau ar gyfer pob galwedigaeth, a bennir gan lefel y cymhwyster a gyflawnir. Felly, mae'r gwahaniaethau yn y dosbarthiad galwedigaeth rhwng gweithwyr Cymru ac UE-27 yn cael eu hadlewyrchu yn lefel y cymhwyster a gyflawnwyd (Tabl 4.8) a gallai egluro pam fod gweithwyr UE-8 yn fwy tebygol o gael eu crynhoi mewn galwedigaethau â sgiliau isel. Yn wir, mae gweithwyr UE-14 yn fwy tebygol o fod â gradd (neu gyfwerth) o'i gymharu â gweithwyr o Gymru ac UE-8, ac mae hyn yn wir am ddynion a menywod.

**Tabl 4.8. Cymwysterau gweithwyr sy'n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol**

| | Gradd | AU | Safon_A | Graddau TGAU | Cymhwyster arall | Dim cymhwyster |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Menywod** | | | | | |
| **Cymru** | 25.5% | 9.3% | 21.5% | 27.0% | 5.5% | 11.1% |
| **UE-27** | 34.7% | 11.1% | 15.4% | 11.7% | 21.5% | 5.5% |
| **UE-14** | 37.8% | 13.9% | 16.2% | 14.3% | 13.2% | 4.7% |
| **UE-8** | 31.3% | 7.8% | 17.5% | 8.0% | 30.6% | 4.7% |
| | **Dynion** | | | | | |
| **Cymru** | 20.8% | 8.3% | 27.2% | 23.9% | 8.4% | 11.5% |
| **UE-27** | 28.0% | 7.6% | 15.4% | 13.5% | 26.1% | 9.3% |
| **UE-14** | 40.3% | 4.8% | 15.7% | 19.4% | 12.7% | 7.1% |
| **UE-8** | 15.1% | 7.9% | 18.7% | 8.7% | 40.5% | 9.1% |


Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018- 2019)

4.31 Fodd bynnag, nodweddir cyflogaeth ymfudwyr gan gamgymhariad sgiliau, gan eu bod yn aml yn cael eu cyflogi mewn galwedigaethau y maent yn or-gymwysedig ar eu cyfer. Mae camgymhariad sgiliau yn cael ei ystyried yn ddangosydd pwysig o integreiddio, gan ei fod yn mesur faint o gyfleoedd y mae ymfudwyr yn gallu eu cyrchu yn y farchnad lafur o ystyried eu set sgiliau. Mae'r dangosydd o or-gymhwyso a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn debyg i'r un a ddiffinnir gan

OECD/EU (2018). Ystyrir mai gweithwyr sydd wedi'u gorgymhwyso yw unigolion sydd â gradd neu wedi cwblhau AU, neu gyfwerth, ac sy'n cael eu cyflogi mewn galwedigaethau sgiliau canolig-isel neu sgiliau isel.

4.32 Mae cyfran y gweithwyr UE-27 sydd wedi'u gorgymhwyso yn uwch nag ar gyfer gweithwyr o Gymru (Ffigwr 4.10). Ymhlith gweithwyr UE-27 sydd ag addysg uwch, mae 37 y cant o fenywod a 27 y cant o ddynion yn cael eu cyflogi mewn galwedigaethau sgiliau canolig-isel a sgiliau isel, o'i gymharu â 25 y cant ac 16 y cant o bobl a anwyd yng Nghymru, yn y drefn honno. Fodd bynnag, mae bwlch o'r fath yn cael ei yrru gan y boblogaeth a anwyd yn UE-8. Mae bron i 58 y cant o fenywod a 41 y cant o ddynion o wledydd UE-8 yn gweithio mewn galwedigaeth sgiliau canolig-isel a sgiliau isel, er y byddai lefel eu cymhwyster yn eu gwneud yn gymwys i wneud cais am swyddi sgiliau canolig-uchel a sgiliau uchel.

**Ffigwr 4.10. Gweithwyr gor-fedrus sy'n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol**





Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018- 2019)

4.33 Er nad oes perthynas glir ymhlith gweithwyr UE-14 rhwng y blynyddoedd a dreuliwyd yng Nghymru a chamgymhariad sgiliau, mae cyfran y gweithwyr UE-8 a gyflogir mewn galwedigaethau y maent wedi'u gorgymhwyso ar eu cyfer yn lleihau gyda'r amser a dreulir yng Nghymru (Ffigwr 4.11). Dengys y graff bod 63 y cant o

weithwyr UE-8 sydd wedi byw yng Nghymru am lai na phum mlynedd yn orgymwys, o'i gymharu â 50 y cant o'r rhai a symudodd i Gymru fwy na deng mlynedd yn ôl. Ymhlith gweithwyr a dreuliodd lai na phum mlynedd yng Nghymru, mae bron i dair gwaith nifer y gweithwyr UE-8 yn or-fedrus (63 y cant) o'i gymharu â gweithwyr UE-14 sy'n or-fedrus (21 y cant). Mae'r gwahaniaeth pendant hwn yn dangos bod cyfran sylweddol o weithwyr UE-8 yn wynebu rhwystrau mwy yn y farchnad lafur a'u bod yn methu â chael galwedigaethau y maent yn gymwys ar eu cyfer, hyd yn oed ychydig flynyddoedd ar ôl iddynt gyrraedd. Gallai hyn fod oherwydd sawl ffactor, megis diffyg gwybodaeth am gyfleoedd yn y farchnad lafur, sgiliau iaith gwael, diffyg cydnabyddiaeth o'r cymhwyster a gafwyd yn y wlad wreiddiol, neu wahaniaethu ar ran cyflogwyr.

**Ffigwr 4.11. Gweithwyr gor-fedrus a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy'n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl nifer o flynyddoedd ers cyrraedd**




Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018- 2019)

4.34 Mae cyfran y gweithwyr UE-8 gor-fedrus yn uchel ar draws pob gwlad yn y DU, yn enwedig ymhlith menywod (Tabl 4.9). Er nad oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng Cymru a gwledydd eraill y DU yng nghyfran y menywod gor-fedrus (i weithwyr UE-8 ac UE-14 fel ei gilydd) a dynion gweithiol o UE-8, mae

cyfran y dynion UE-14 gor-fedrus sy'n byw yng Nghymru bron ddwywaith y cyfrannau yng ngweddill y DU.

**Tabl 4.9. Gweithwyr gor-fedrus yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol a gwlad breswyl yn y DU**

| | Menywod | | Dynion | |
|---|---|---|---|---|
| | UE-14 | UE-8 | UE-14 | UE-8 |
| **Cymru** | 23% | 58% | 22% | 41% |
| **Lloegr** | 21% | 50% | 13% | 37% |
| **Yr Alban** | 23% | 52% | 11% | 47% |
| **Gogledd Iwerddon** | 21% | 69% | 14% | 45% |

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018- 2019)

4.35 Oherwydd cyfyngiadau data, nid yw'n bosibl gwahaniaethu rhwng ymfudwyr a enillodd gymhwyster yng Nghymru a'r rhai a'i enillodd yn eu gwlad wreiddiol. Gellir disgwyl bod gorgymhwyso yn fwy tebygol o effeithio ar ymfudwyr a enillodd eu cymhwyster yn y wlad wreiddiol. Fodd bynnag, ar draws gwledydd Ewrop, mae gorgymhwyso yn effeithio ar 42 y cant o ymfudwyr a addysgwyd dramor a 46 y cant o'r rhai a anwyd y tu allan i'r UE (OECD/EU, 2018). Mae hyn yn awgrymu bod cyfradd gorgymhwyso gweithwyr UE-8 yng Nghymru yn uwch na'r cyfartaledd Ewropeaidd.

## Tai

**Y prif ganfyddiadau ar dai:**


- Mae perchentyaeth yn ddangosydd o barodrwydd ymfudwyr i aros yn y wlad letyol ac fe'i defnyddir fel mesur o integreiddio. Mae unigolion a anwyd yn UE-27 sydd wedi treulio mwy o amser yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eiddo.
- Mae cyfradd perchentyaeth unigolion a anwyd yng ngwledydd yr UE-14 sydd wedi bod yn y wlad am fwy na deng mlynedd yn agos at y gyfradd o berchentyaeth yng Nghymru (tua 70 y cant).
- Mae pobl UE-27 sy'n byw yng Nghymru bron ddwywaith yn fwy tebygol o fyw mewn llety rhent preifat, o'i gymharu â phobl Cymru. Maent hefyd yn llai tebygol o fyw mewn tai sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol, yn enwedig unigolion o wledydd UE-8.
- Mae cyflwr tai a diogelwch cymunedol yn effeithio ar ymdeimlad o ddiogelwch a sefydlogrwydd ymfudwyr, sy'n hwyluso'r broses integreiddio. Yn ôl ystadegau diweddar, mae 60 y cant o Bwyliaid yng Nghymru, y grŵp mwyaf o wladolion yr UE yng Nghymru, yn byw mewn cymdogaethau lle mae mynegeion amddifadedd tai a diogelwch cymunedol yn is na'r canolrif.

4.36 Mae tai yn ffactor pwysig yn y broses integreiddio, gan ei fod yn effeithio ar ansawdd bywyd a chyfleoedd pobl (Spencer *et al.*, 2007; Spencer & Sanders, 2016). Mae Fframwaith Dangosyddion Integreiddio y Swyddfa Gartref yn nodi tai fel ffactor sy'n hwyluso proses integreiddio ymfudwyr, gan fod amodau tai yn effeithio ar yr "ymdeimlad cymuned o ddiogelwch a sefydlogrwydd, cyfleoedd ar gyfer cysylltiad cymdeithasol, a mynediad at ofal iechyd, addysg a chyflogaeth" (Y Swyddfa Gartref, 2019).

4.37 Yng nghyd-destun tai, ystyrir p'un a yw ymfudwyr yn berchen ar eiddo yn ddangosydd integreiddio, gan ei fod yn awgrymu parodrwydd y rhai a anwyd dramor i aros yn y wlad yn y tymor hir, ac mae'n arwydd o symudedd cymdeithasol ar i fyny (EWSI Editorial Team, 2016). Mae unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-27 ac sy'n byw yng Nghymru yn sylweddol llai tebygol o fod yn berchen ar eiddo (47.3 y cant) na phobl Gymru (72.5 y cant) (Ffigwr 4.12). Ymhlith yr unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-27, mae 35 y cant o'r rhai a anwyd yn UE-8 sy'n byw yng Nghymru yn berchen ar eiddo, o'i gymharu â 57.8 y cant a anwyd yn UE-14.


4.38 Gallai'r gwahaniaeth hwn fod am nifer o resymau, gan gynnwys y ffaith y gallai ymfudwyr UE-8 fod wedi ymfudo i Gymru yn fwy diweddar o’i gymharu ag UE-14. Yn wir, mae ymfudwyr sydd newydd gyrraedd yn fwy tebygol o rentu tŷ, o'i gymharu ag ymfudwyr a gyrhaeddodd yn gynharach yn y wlad letyol, gan awgrymu bod cyfran y rhai a anwyd dramor sy'n berchen ar dŷ yn cynyddu wrth iddynt aros yn y wlad letyol (Ffigwr 4.13). Ymhlith y rhai a symudodd i Gymru fwy na deng mlynedd yn ôl, prynodd 67 y cant o bobl a anwyd yng ngwledydd UE-14 dŷ, sy'n unol â chyfradd perchentyaeth pobl Cymru (tua 70 y cant (Llywodraeth Cymru, 2019a). Ar y llaw arall, mae cyfradd perchentyaeth y rhai a anwyd yn UE-8 ac sydd wedi bod yn byw yng Nghymru am fwy na deng mlynedd oddeutu 50 y cant.

**Ffigwr 4.12. Daliadaeth tai preswylwyr Cymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol**




Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018- 2019)

**Ffigwr 4.13. Daliadaeth tai y rhai a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy’n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl nifer o flynyddoedd ers cyrraedd**





Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018- 2019)

4.39 Mae pobl UE-27 hefyd yn fwy tebygol o rentu llety gan landlord preifat (61.5 y cant) o'i gymharu â phoblogaeth Cymru (35.8 y cant) (Ffigwr 4.14). Mae unigolion UE-27 hefyd yn llai tebygol o fyw mewn tŷ cyngor (12.4 y cant) o'i gymharu â phoblogaeth Cymru (28.6 y cant), yn enwedig y rhai o wledydd UE-8 (9.9 y cant). Yn ôl Vargas-Silva & Fernández-Reino (2019), rhwng 2016-2018, yn y DU, roedd tua 13 y cant o aelwydydd ag oedolion a anwyd yn yr UE yn byw mewn llety gorlawn, ac roedd hyn yn gyffredin yn y sector rhentu.

4.40 I'r rhai sydd ar waelod y dosbarthiad incwm, gallai mynediad at dai cymdeithasol ddarparu safonau ansawdd derbyniol a gwella eu hamodau byw. Fodd bynnag, efallai na fydd ymfudwyr yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd, yn enwedig yn fuan ar ôl iddynt gyrraedd. Yn wir, y prif ffactorau sy'n arwain ymfudwyr i ganoli mewn llety rhent isel yw materion fforddiadwyedd a diffyg mynediad at dai cymdeithasol, yn ogystal â ffactorau cymdeithasol, megis byw yn agos at ymfudwyr eraill o'u gwlad eu hunain (Gidley & Jayaweera, 2010). Mae'r ffactorau hyn yn codi pryderon pwysig am amodau byw pobl UE-27 sy'n byw yng Nghymru, a allai arafu eu proses integreiddio.

**Ffigwr 4.14. Preswylwyr Cymru yn rhentu gan landlord preifat neu gyhoeddus yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol**




Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018- 2019)

## Box 4.1 Mynegeion amddifadedd tai a diogelwch cymunedol ar gyfer Pwyliaid sy’n byw yng Nghymru

Rhestrir amodau tai a diogelwch cymunedol ymhlith y prif ddangosyddion integreiddio yn y Fframwaith Integreiddio a ddatblygwyd gan y Swyddfa Gartref (2019). Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys mynegai o fesur amddifadedd yn seiliedig ar yr ardal breswyl wedi'i dadgyfuno yn ôl incwm, tai, diogelwch cymunedol a ffactorau eraill. Mae'r Arolwg Cenedlaethol Cymru yn arolwg ar raddfa fawr a gynhelir bob blwyddyn ac mae'n cynnwys tua 12,000 o unigolion. Darpara'r arolwg ystod eang o ddangosyddion economaidd-gymdeithasol o'r boblogaeth sy'n byw yng Nghymru. Er nad yw data ar genedligrwydd yn cael ei ddadgyfuno yn ôl gwlad enedigol, datganodd sampl fach o ymatebwyr (293) eu bod yn Bwyliaid. Mewnfudwyr o Wlad Pwyl yw'r gwladolion mwyaf cynrychioliadol o'r UE yng Nghymru yn ogystal â'r grŵp mwyaf ymhlith y rhai a anwyd yn UE-8.

Dengys Tabl 4.10 ddosbarthiad amddifadedd tai ac amddifadedd diogelwch cymunedol ar gyfer Pwyliaid a phoblogaeth y DU, a ddiffinnir fel y rhai y mae eu grŵp ethnig yn Gymry, Albanwyr, pobl o Ogledd Iwerddon, neu Saeson. Mae'r tabl isod yn cyfeirio at ganlyniadau cyfun yr arolwg a gynhaliwyd yn 2017/2018 a 2018/2019.

**Tabl 4.10. Dosbarthiad amddifadedd tai a diogelwch cymunedol ar gyfer Pwyliaid a gwladolion y DU sy'n byw yng Nghymru yn 2017-19**

| | 20% mwyaf amddifad | Ch2 | Ch3 | Ch4 | 20% lleiaf amddifad |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Tai** | | | | |
| **Pwyliaid** | 35.7% | 27.3% | 16.2% | 16.0% | 4.9% |
| **Gwladolion y DU** | 17.1% | 19.0% | 21.3% | 21.6% | 21.0% |
| | | | | | |
| | **Diogelwch Cymunedol** | | | | |
| **Pwyliaid** | 39.8% | 22.8% | 20.0% | 11.4% | 6.0% |
| **Gwladolion y DU** | 17.1% | 18.7% | 21.1% | 21.2% | 22.0% |

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru (2017-2019).

Dengys y tabl bod 35.7 y cant a 39.8 y cant o Bwyliaid yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran amodau tai a diogelwch y gymdogaeth, yn y drefn honno, o’i gymharu â 17.1 y cant o wladolion y DU ar gyfer y ddau fesur. Mae Pwyliaid wedi'u crynhoi'n fawr yn chwarteli isaf y dosbarthiad, gyda mwy na 60 y cant yn is na chanolrif y ddau fynegai amddifadedd o'i gymharu â gwladolion y DU, sy’n dangos cyfran o lai na 40 y cant. Dylai'r canlyniadau gael eu dehongli'n ofalus gan fod data hunan-gofnodedig yn ddarostyngedig i gyfyngiadau, e.e. efallai fod gan ymatebwyr ddehongliadau gwahanol ar y cwestiynau ar genedligrwydd a allai arwain at dan-adrodd/ gor-adrodd cenedligrwydd Pwylaidd.

## Iechyd a budd-daliadau

**Y prif ganfyddiadau ar iechyd a budd-daliadau:**


- Mae iechyd yn effeithio ar ansawdd bywyd, cyfleoedd cyflogaeth, a chyfranogiad mewn bywyd cymdeithasol.
- Mae unigolion a anwyd yn UE-27 yn tueddu i fod yn iachach na phoblogaeth gyffredinol Cymru, hyd yn oed o fewn yr un grŵp oedran. Noda 14.9 y cant o boblogaeth UE-27 o dan 40 oed bod ganddynt broblemau iechyd sydd wedi para am fwy na blwyddyn o’i gymharu â 27.2 y cant o Gymry yn y grŵp oedran hwn.
- At ei gilydd, mae ymfudwyr o UE-8 ac UE-14 yn llai tebygol o wneud cais am fudd-daliadau, ac eithrio budd-daliadau tai.
- Mae'n anoddach cael gafael ar wybodaeth am wasanaethau cyffredinol a ddarperir gan gynghorau i ymfudwyr sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Cyhoeddodd 30 y cant o Bwyliaid sy'n byw mewn ardaloedd gwledig nad ydynt yn gallu dod o hyd i wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan eu Awdurdod Lleol, o’i gymharu â 18 y cant mewn ardaloedd trefol.

4.41 Cyfeirir at iechyd, tai ac incwm yn nangosyddion Zaragoza fel dangosyddion cynhwysiant cymdeithasol gan eu bod yn cael effaith ar feysydd integreiddio eraill. Yn yr un modd, mae Dangosydd Fframwaith Integreiddio'r Swyddfa Gartref yn nodi iechyd fel un o'r pum parth a all gefnogi proses integreiddio ehangach (Y Swyddfa Gartref, 2019). Er enghraifft, mae cysylltiad cadarnhaol rhwng iechyd da ac ansawdd bywyd, sy'n golygu y gallai arwain at fwy a gwell cyfleoedd cyflogaeth, cyfranogiad cymdeithasol, a gwella'r ffordd y mae pobl yn ymgysylltu â chymdeithas (McGinnity *et al.*, 2012).

4.42 Dengys Ffigwr 4.15 bod unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-27 yn llai tebygol o adrodd am broblemau iechyd yn y gorffennol (6.7 y cant) neu broblemau iechyd y disgwylir iddynt bara am fwy na blwyddyn (22.1 y cant) o’i gymharu â phoblogaeth Cymru. Yn gyson ag astudiaethau blaenorol, mae ymfudwyr UE-27 yn tueddu i fod yn iachach ac yn iau na brodorion a'r rhai a benderfynodd beidio â ymfudo o'r un wlad wreiddiol (Jasso *et al.*, 2004; Antecol & Bedard, 2006; Lemos, 2014). Ar ben hynny, mae ymfudwyr sy'n penderfynu aros yn y wlad letyol yn iachach ar gyfartaledd, sy'n golygu bod ganddynt "fantais iechyd ymfudwyr" (Fernández-Reino, 2020). Yn wir, mae ymfudwyr UE-27 sy'n byw yng Nghymru yn tueddu i fod yn

iachach na'r boblogaeth frodorol hefyd o fewn yr un grŵp oedran (Tabl 4.11). Er bod 27.2 y cant o bobl Gymreig o dan 40 oed wedi nodi eu bod yn profi problemau iechyd sy'n debygol o bara i'r flwyddyn ganlynol, mae hyn yn wir am lai na 15 y cant o'r rhai a anwyd yn UE-27 sydd yn yr un grŵp oedran.

**Ffigwr 4.15. Statws iechyd hunan-adrodd preswylwyr Cymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol**




Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018- 2019)

**Tabl 4.11. Statws iechyd hunan-adrodd preswylwyr Cymru yn 2018-19 yn ôl gwlad enedigol a grŵp oed**

| | Oed | Problemau iechyd o'r gorffennol | Problemau iechyd sy'n para mwy na blwyddyn |
|---|---|---|---|
| **Cymru** | | 9.1% | 27.2% |
| **UE-27** | Dan 40 | 4.1% | 14.9% |
| **UE-14** | | 6.4% | 18.7% |
| **UE-8** | | 0.0% | 10.6% |
| | | | |
| **Cymru** | | 18.1% | 48.0% |
| **UE-27** | Dros 40 | 9.6% | 30.9% |
| **UE-14** | | 10.1% | 38.5% |
| **UE-8** | | 10.3% | 23.2% |

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018- 2019)

4.43 Fel y soniwyd uchod, gallai'r gwahaniaeth hwn mewn cyflwr iechyd rhwng y rhai a anwyd yn UE-27 a Chymru gael ei egluro trwy ddetholiad cadarnhaol o bobl UE-27 a benderfynodd fudo, sy'n tueddu i fod yn iachach na'r boblogaeth frodorol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth flaenorol hefyd wedi dangos bod ymfudwyr yn llai tebygol o gael mynediad i'r system iechyd oherwydd diffyg sgiliau iaith, diffyg gwybodaeth am y system iechyd a'u hawliau (Spencer & Sanders, 2016). Gallai hyn eu hatal rhag nodi problemau iechyd.[24]

4.44 Dengys Tabl 4.12 y gyfran o bobl sy'n ceisio am fudd-daliadau, wedi'u dadgyfuno yn ôl y math o fudd-dal a hawlir, a dengys y deg cyfuniad budd-dal uchaf a hawliwyd. Cesglir y wybodaeth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'n cofnodi'r ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl cenedligrwydd yr ymgeisydd fel y'u cofnodwyd yng nghofrestriad NINO. Dengys y tabl bod gwladolion UE-27 yn llai tebygol o wneud cais am fudd-daliadau ym mron pob un o'r categorïau rhestredig o'i gymharu â

[24] Un cyfyngiad ar y data yw bod cyflwr iechyd yn hunan-gofnodedig yn hytrach nag yn seiliedig ar gofnodion meddygol.

gwladolion y DU sy'n byw yng Nghymru, gan gynnwys budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflyrau iechyd. Mae cyfran y rhai a anwyd yn UE-27 sy'n ceisio am fudd-daliadau yn debyg yng Nghymru, Lloegr a'r Alban (Tabl 4.13). Yn nodedig, mae'r rhai o UE-27 sy'n byw yng Nghymru yn llai tebygol o wneud cais am fudd-daliadau tai o'i gymharu â'r rhai o UE-27 sy'n byw yn Lloegr.

**Tabl 4.12. Canran preswylwyr Cymru a wnaeth gais am fudd-daliadau yn 2018 yn ôl cenedligrwydd a'r math o fudd-daliadau**

| Math o fudd-dal | DU | UE-27 | UE-14 | UE-8 |
|---|---|---|---|---|
| **Budd-dal tai yn unig** | 1.4% | 2.8% | 2.0% | 4.0% |
| **Budd-dal Tai, Taliad Annibynnol Personol/Lwfans Byw i'r Anabl, Budd-dal Analluogrwydd** | 1.6% | 0.5% | 0.5% | 0.6% |
| **Credyd Cyffredinol/Allan o Waith** | 0.9% | 0.6% | 0.4% | 0.7% |
| **Taliad Annibynnol Personol/Lwfans Byw i'r Anabl, Budd-dal Analluogrwydd** | 1.5% | 0.2% | 0.2% | 0.3% |
| **Taliad Annibynnol Personol / Lwfans Byw i'r Anabl** | 1.0% | 0.3% | 0.2% | 0.4% |
| **Credyd Cyffredinol / Mewn Gwaith** | 0.6% | 1.4% | 0.7% | 1.9% |
| **Budd-dal tai, Budd-dal analluogrwydd** | 0.9% | 0.3% | 0.3% | 0.3% |
| **Lwfans Gofalwyr** | 0.7% | 0.4% | 0.2% | 0.7% |
| **Budd-dal analluogrwydd** | 0.8% | 0.2% | 0.2% | 0.3% |
| **Budd-dal tai, Lwfans Gofalwyr, Cynhaliaeth Incwm** | 0.4% | 0.1% | 0.1% | 0.2% |

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2018)

**Tabl 4.13. Canran unigolion a anwyd yn UE-27 a wnaeth gais am fudd-daliadau yn 2018 yn ôl gwlad breswyl**

| | Cymru | Lloegr | Yr Alban |
|---|---|---|---|
| **Budd-dal tai yn unig** | 2.8% | 5.2% | 3.2% |
| **Budd-dal tai, Taliad Annibynnol Personol/Lwfans Byw i'r Anabl, Budd-dal analluogrwydd** | 0.5% | 0.4% | 0.3% |
| **Credyd Cyffredinol / Allan o Waith** | 0.6% | 0.5% | 0.4% |
| **Taliad Annibynnol Personol / Lwfans Byw i'r Anabl, Budd-dal analluogrwydd** | 0.2% | 0.2% | 0.2% |
| **Taliad Annibynnol Personol / Lwfans Byw i'r Anabl** | 0.3% | 0.2% | 0.2% |
| **Credyd Cyffredinol / Mewn Gwaith** | 1.4% | 1.3% | 1.0% |
| **Budd-dal tai, Budd-dal analluogrwydd** | 0.3% | 0.2% | 0.2% |
| **Lwfans Gofalwyr** | 0.4% | 0.3% | 0.3% |
| **Budd-dal analluogrwydd** | 0.2% | 0.2% | 0.2% |
| **Budd-dal tai, Lwfans Gofalwyr, Cynhaliaeth Incwm** | 0.1% | 0.1% | 0.0% |

Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2018)

4.45 Yn gyffredinol, mae'n anodd sefydlu a yw pobl o wledydd UE-27 yn llai tebygol o wneud cais am fudd-daliadau oherwydd nad oes angen cymorth arnynt, neu oherwydd bod ffactorau sy'n eu hatal rhag gwneud hynny, megis sgiliau iaith gwael, diffyg gwybodaeth neu ddealltwriaeth o'r system, a diffyg cefnogaeth. Bydd tystiolaeth bellach yn hanfodol i benderfynu a yw ymfudwyr UE-27 angen mwy o gefnogaeth i gael mynediad at fudd-daliadau a gwasanaethau.

## Box 4.2 Mynediad at wasanaethau lleol

Un o'r heriau sy'n wynebu'r boblogaeth a anwyd dramor yw caffael gwybodaeth am wasanaethau, megis iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn eu gwlad letyol.

Gan ddefnyddio'r un sampl a ddangosir ym Mlwch 4.1, mae Tabl 4.14 yn dangos lefel boddhad Pwyliaid a gwladolion y DU sy'n byw yng Nghymru wrth gyrchu gwybodaeth am y gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol, gan wahaniaethu rhwng ardaloedd gwledig a threfol.

**Tabl 4.14. Lefel boddhad Pwyliaid a gwladolion y DU sy'n byw yng Nghymru wrth gyrchu gwybodaeth yn 2017-19**

| | Gwn sut i ganfod pa wasanaethau mae fy Awdurdod Lleol yn eu cynnig | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cytuno'n gryf** | **Tueddu i gytuno** | **Ddim yn cytuno nac anghytuno** | **Tueddu i anghytuno** | **Anghytuno'n gryf** |
| | **Trefol** | | | | |
| **Pwyliaid** | 39.9% | 31.4% | 11.3% | 13.3% | 4.2% |
| **Gwladolion y DU** | 38.9% | 37.6% | 9.5% | 9.0% | 5.0% |
| | **Gwledig** | | | | |
| **Pwyliaid** | 39.2% | 21.6% | 6.2% | 19.6% | 13.5% |
| **Gwladolion y DU** | 39.4% | 38.7% | 8.9% | 8.4% | 4.6% |

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru (2017-19)

O'u cymharu â gwladolion y DU, mae Pwyliaid yn llai tebygol o fod â gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan eu Hawdurdod Lleol, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Yn wir, nid yw mwy na 30 y cant o Bwyliaid sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn gwybod am y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol, o gymharu â 18 y cant o Bwyliaid sy'n byw mewn ardaloedd trefol.

## Yr Iaith Gymraeg a hunaniaeth genedlaethol

**Prif ganfyddiadau am yr iaith Gymraeg a hunaniaeth genedlaethol:**

- Er nad yw sgiliau Cymraeg yn hanfodol i gael mynediad i'r farchnad lafur, gellir eu defnyddio fel dangosydd o barodrwydd i integreiddio yn y gymuned leol.
- Mae gwybodaeth o'r Gymraeg yn cynyddu gyda'r amser a dreulir yng Nghymru. Ar ôl treulio deng mlynedd yng Nghymru, mae 17 y cant o UE-14 a 5 y cant o UE-8 yn deall Cymraeg llafar.
- Mae gwybodaeth o'r Gymraeg hefyd yn amrywio ar draws sgiliau galwedigaethol yn wahanol i'r rhai o UE-8 ac UE-14. Mae gweithwyr UE-8 mewn galwedigaethau sgiliau isel yn llawer llai tebygol o wybod Cymraeg o'i gymharu â gweithwyr UE-14. Gall hyn fod oherwydd bod UE-8 yn tueddu i weithio gydag ymfudwyr eraill.
- Mae bwlch mawr rhwng cyfran UE-14 ac UE-8 sy'n datgan bod ganddynt hunaniaeth Brydeinig. Mae 27.3 y cant o UE-14 sy'n byw yng Nghymru yn datgan eu bod yn Brydeinwyr o'i gymharu â 4.2 y cant o'r rhai a anwyd yn UE-8.
- At ei gilydd, mae cyfran fwy o UE-14 yn teimlo'n Brydeinig o'i gymharu ag UE-8. Mae UE-14 sy'n byw yng Nghymru hefyd yn llawer mwy tebygol o deimlo'n Brydeinig (27.3 y cant) o'i gymharu â'r rhai sy'n byw yn Lloegr (20.7 y cant), yr Alban (16.6 y cant), a Gogledd Iwerddon (12.3 y cant).

### Gwybodaeth o'r Gymraeg

4.46 Mae'r gallu i gyfathrebu yn Saesneg (yn y mwyafrif o gymunedau) yn hanfodol er mwyn i ymfudwyr ymgartrefu, cyrchu'r farchnad lafur, cael budd-daliadau, ac yn y blaen (Knight *et al*., 2017). Yn ôl y gyfraith, mae Cymru yn wlad ddwyieithog, ac mae'r defnydd o'r Gymraeg yn cefnogi integreiddio cymdeithasol pellach (Llywodraeth Cymru, 2018). Fel y dadleuodd Rosiak (2018), mae ymfudwyr yng Nghymru sy'n penderfynu dysgu Cymraeg, yn gwneud hynny i gael mynediad at y diwylliant brodorol a hwyluso eu proses integreiddio yn y gymuned leol.

4.47 Nid yw'n syndod bod gwybodaeth o'r Gymraeg, boed ar lafar neu'n ysgrifenedig, yn cynyddu gyda'r amser a dreulir yng Nghymru, ac mae hyn yn wir am bobl a anwyd yng ngwledydd UE-8 ac UE-14 (Tabl 4.15). Fodd bynnag, ar ôl deng mlynedd yng Nghymru, roedd bron i 17 y cant o ymfudwyr UE-14 yn deall Cymraeg llafar, ond nododd llai na 5 y cant o ymfudwyr UE-8 a fu'n byw yng Nghymru am fwy na deng mlynedd eu bod yn deall Cymraeg.

**Tabl 4.15. Gwybodaeth o’r iaith Gymraeg gan ddinasyddion a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy’n byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl nifer o flynyddoedd ers cyrraedd**

| | | Darllen Cymraeg | Siarad Cymraeg | Deall Cymraeg llafar | Ysgrifennu Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|
| | <5 mlynedd | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| **UE-14** | 5-10 mlynedd | 3.0% | 0.0% | 2.0% | 3.0% |
| | >10 mlynedd | 6.1% | 9.2% | 16.8% | 5.1% |
| | **< 5 mlynedd** | **0.0%** | **0.0%** | **0.0%** | **0.0%** |
| **UE-8** | 5-10 mlynedd | 0.8% | 1.7% | 1.7% | 0.8% |
| | >10 mlynedd | 1.5% | 4.3% | 4.8% | 0.9% |

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018- 2019)

4.48 Mae gwybodaeth o'r Gymraeg hefyd yn amrywio ar draws sgiliau galwedigaethol (Tabl 4.16). Fel y disgrifiwyd uchod, mae dosbarthiad gweithwyr UE-27 ar draws galwedigaethau yn amrywio'n sylweddol rhwng gweithwyr a anwyd yn UE-8 ac UE-14, gydag ymfudwyr UE-8 yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn galwedigaethau sgiliau isel, a gweithwyr UE-14 yn fwy tebygol o fod mewn swyddi sgiliau uchel a chanolig. Wrth ystyried gweithwyr yn yr un categori sgiliau, mae gwahaniaethau sylweddol yn y wybodaeth o'r Gymraeg, yn enwedig ar waelod y dosbarthiad sgiliau. Er bod 14 y cant o weithwyr UE-14 a gyflogir mewn galwedigaethau sgiliau canolig-isel a sgiliau isel yn datgan eu bod yn gallu deall Cymraeg llafar, dim ond 1 y cant o weithwyr UE-8 sy'n deall y Gymraeg. Esboniad posib yw bod ymfudwyr UE-8 yn llai tebygol o fod â chydweithwyr sy'n siarad Cymraeg. Yn wir, mae astudiaethau blaenorol wedi dangos bod gweithwyr UE-8 yn tueddu i gael eu gwahanu i alwedigaethau sydd â chyfran isel o frodorion. Mae hyn, er enghraifft, yn wir am Bwyliaid, a gyflogir yn aml mewn ffatrïoedd lle mae mwyafrif y gweithlu'n cynnwys ymfudwyr eraill (Knight *et al.*, 2017).

**Tabl 4.16. Gwybodaeth o’r iaith Gymraeg gan ddinasyddion a anwyd yn UE-14 ac UE-8 yn byw yng Nghymru yn 2018-19 yn ôl sgiliau galwedigaethol**

| | | Darllen Cymraeg | Siarad Cymraeg | Deall Cymraeg llafar | Ysgrifennu Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|
| **UE-14** | Uchel/canolig uchel | 2.7% | 4.9% | 8.6% | 2.3% |
| **UE-8** | Uchel/canolig uchel | 2.5% | 8.0% | 9.1% | 1.1% |
| | | | | | |
| **UE-14** | Canolig isel/Isel | 5.0% | 5.1% | 14.0% | 5.0% |
| **UE-8** | Canolig isel/Isel | 0.3% | 1.1% | 1.1% | 0.3% |

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019)

## Hunaniaeth genedlaethol

4.49 Mae hunaniaeth genedlaethol yn nodi i ba raddau y mae pobl yn uniaethu â'r wlad breswyl a'r ymdeimlad o berthyn sydd ganddynt i'r gymuned (Gidley & Jayaweera, 2010). Mae'r cysyniad o hunaniaeth genedlaethol yn wahanol i genedligrwydd. Er bod pryder bod ymlyniad ymfudwyr i'w mamwlad yn eu hatal rhag datblygu ymdeimlad o berthyn tuag at y wlad letyol, mae'r llenyddiaeth yn honni y gall pobl ddatblygu a chadw y ddwy hunaniaeth genedlaethol (Bilgili, 2014; Lessard-Phillips *et al*., 2020; Nandi & Platt, 2014). Yn ogystal, mae hyd yr amser byw yn y wlad letyol yn hanfodol i ddatblygu hunaniaeth genedlaethol. Yn wir, dengys Manning & Roy (2010) po hiraf y mae ymfudwyr yn ei dreulio ym Mhrydain, yr uchaf yw'r tebygolrwydd y byddant yn nodi hunaniaeth Brydeinig.

4.50 Mae'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn darparu gwybodaeth am hunaniaethau cenedlaethol Cymru a Phrydain. Gofynnir i ymatebwyr nodi a oes ganddynt hunaniaeth genedlaethol Gymreig neu Brydeinig. Mae Tabl 4.17 yn nodi cyfran y bobl UE-27 sy'n datgan bod ganddynt hunaniaeth Gymreig, wedi'i dadgyfuno yn ôl rhai nodweddion economaidd-gymdeithasol. Nid yw'r tabl yn dangos unrhyw wahaniaeth rhwng dynion a menywod a anwyd yn UE-14, tra bod menywod UE-8 yn fwy tebygol o deimlo'n Gymreig (5.5 y cant) o’i gymharu â dynion (0.9 y cant). Ar ben hynny, mae gwahaniaeth nodedig rhwng poblogaethau UE-27 sydd â sgiliau uchel a sgiliau isel. Mae gweithwyr UE-27 a gyflogir mewn galwedigaethau sgiliau canolig-isel a sgiliau isel yn llai tebygol o adrodd am hunaniaeth Gymreig o’i

gymharu â'r rhai a gyflogir mewn galwedigaethau sgiliau canolig-uchel a sgiliau uchel, yn enwedig yn achos gweithwyr UE-8. At ei gilydd, mae'r tabl hwn yn awgrymu bod menywod, gweithwyr â sgiliau uchel, ac ymfudwyr a dreuliodd fwy o amser yng Nghymru yn fwy tebygol o nodi hunaniaeth Gymreig.


**Tabl 4.17. Y rhai a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy'n byw yng Nghymru sy'n nodi hunaniaeth Gymreig yn 2018-19 yn ôl nodweddion economaidd-gymdeithasol**

| | | Geni yn UE-14 | Geni yn UE-8 |
|---|---|---|---|
| **Rhyw** | Menywod | 9.6% | 5.5% |
| | Dynion | 10.7% | 0.9% |
| **Sgiliau** | Sgiliau Uchel/Canolig uchel | 9.6% | 8.9% |
| | Sgiliau Canolig isel/Isel | 6.2% | 0.6% |
| **Nifer o flynyddoedd ers cyrraedd** | <5 mlynedd | 1.0% | 0.0% |
| | 5-10 mlynedd | 0.0% | 3.1% |
| | >10 mlynedd | 14.0% | 4.9% |

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019)

4.51 Dengys Ffigwr 4.16 bod unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-14 ac sy'n byw yng Nghymru yn fwy tebygol o deimlo'n Brydeinig o'u cymharu â'r rhai sy'n byw yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ac eithrio Lloegr, mae unigolion a anwyd yn UE-8 sy'n byw yng Nghymru hefyd yn fwy tebygol o deimlo'n Brydeinig na'r rhai yng ngwledydd eraill y DU. Fodd bynnag, mae'r bwlch rhwng unigolion o wledydd UE-8 ac UE-14 yn awgrymu bod y teimlad o berthyn yn gryfach i'r rhai o wledydd UE-14, a allai yn ei dro nodi proses integreiddio fwy cymhleth i unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-8.

**Ffigwr 4.16. Y rhai a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy’n adrodd am hunaniaeth Brydeinig yn 2018-19 yn ôl gwlad breswyl**




Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019)

4.52 Dengys Tabl 4.18 cyfran y rhai o UE-8 ac UE-14 sy'n adrodd ar hunaniaeth Brydeinig yn 2018/2019 ac yn 2014/2015 i gymharu'r ymatebion cyn ac ar ôl refferendwm yr UE. Ar gyfer unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-14, roedd cyfran yr ymatebwyr a nododd hunaniaeth Brydeinig yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn is yn 2018/19 nag yr oedd yn 2014/15, tra’r arhosodd yn ddigyfnewid yng Nghymru. Yn lle hynny, mae cyfran y rhai a anwyd yn UE-8 sy'n byw yng Nghymru sy'n adrodd hunaniaeth Brydeinig wedi cynyddu o 3.9 y cant yn 2014/15 i 4.2 y cant yn 2018/19. At ei gilydd, mae'r ffigyrau'n awgrymu nad yw'n ymddangos bod penderfyniad y DU i adael yr UE wedi cael effaith negyddol ar y tebygolrwydd y bydd pobl a anwyd yng ngwledydd UE-14 ac UE-8 sy'n byw yng Nghymru yn teimlo'n Brydeinig. Fodd bynnag, dylid dehongli'r gymhariaeth rhwng yr ymatebion

cyn y refferendwm ac ar ôl yr UE yn ofalus gan fod sampl yr ymatebwyr yn y ddwy don yn wahanol.

**Tabl 4.18. Y rhai a anwyd yn UE-14 ac UE-8 sy'n adrodd am hunaniaeth Brydeinig yn 2018-19 a 2014-15 yn ôl gwlad breswyl**

| | 2018/19 | 2014/15 |
|---|---|---|
| | **UE-14** | |
| **Cymru** | 27.3% | 27.3% |
| **Lloegr** | 20.7% | 23.5% |
| **Yr Alban** | 16.6% | 18.3% |
| **Gogledd Iwerddon** | 12.3% | 16.5% |
| | **UE-8** | |
| **Cymru** | 4.2% | 3.9% |
| **Lloegr** | 8.9% | 5.9% |
| **Yr Alban** | 2.8% | 2.6% |
| **Gogledd Iwerddon** | 0.4% | 2.7% |

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019) & Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2014-2015)

# 5. Mesur integreiddio dinasyddion yr UE yng Nghymru – Ymchwil ansoddol

5.1 Roedd yr ymchwil ansoddol yn cynnwys (i) cyfweliadau â 13 o randdeiliaid allweddol, a (ii) 21 cyfweliad ag unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-27 ac sy'n byw yng Nghymru. Cynhaliwyd y cyfweliadau trwy gynhadledd ffôn neu fideo ac roeddent yn para oddeutu 30 munud.

## Ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid

**Prif ganfyddiadau yn dilyn cyfweliadau â rhanddeiliaid:**

- Nid yw rhai ymfudwyr o'r UE yn siarad Saesneg, hyd yn oed ar ôl byw yng Nghymru am flynyddoedd - mae'r rhain yn bennaf wedi eu geni'n UE-8. Yn aml ni allant fynychu cyrsiau iaith Saesneg oherwydd eu bod yn gweithio oriau hir, yn enwedig y rhai mewn swyddi sgiliau isel.
- Yn aml nid yw dinasyddion yr UE yn gwneud cais am fudd-daliadau y maent yn gymwys ar eu cyfer oherwydd sgiliau iaith gwael a diffyg gwybodaeth.
- Mae llawer o weithwyr yr UE mewn swyddi y maent yn or-fedrus ar eu cyfer, oherwydd: (i) diffyg trosi cymwysterau yn swyddogol rhwng gwledydd, a (ii) diffyg dealltwriaeth cyflogwyr o gymwysterau gwledydd tramor.
- Mae ymfudwyr o'r un wlad enedigol yn allweddol wrth helpu mewnfudwyr a gyrhaeddodd yn ddiweddar i integreiddio.
- Mae diffyg cyllid yn ei gwneud hi'n anodd darparu'r holl wasanaethau cymorth sydd eu hangen ar ddinasyddion yr UE. Mae'r rhan fwyaf o adnoddau wedi'u neilltuo ar hyn o bryd i helpu dinasyddion yr UE ymgeisio am y Cynllun Preswylio’n Sefydlog.

### Methodoleg

5.2 Rhoddwyd gwahoddiad agored i’r holl randdeiliaid sy'n gweithio gyda/ yn cefnogi dinasyddion yr UE, a oedd yn esbonio nod y cyfweliadau a nodau cyffredinol yr ymchwil hwn.

5.3 Y rhanddeiliaid allweddol a gyfwelwyd oedd swyddogion cydlyniant cymunedol yng Nghynghorau Sir Abertawe, Caerdydd, Casnewydd, a Wrecsam, yn ogystal â chynrychiolwyr o sefydliadau sy'n cefnogi dinasyddion yr UE, megis Settled, Cyngor ar Bopeth (gan gynnwys Caerdydd a'r Fro yn ogystal â Chyngor ar Bopeth Sir y Fflint) , a Sefydliad Bevan, melin drafod yng Nghymru. Roedd yr ymchwil ansoddol

yn ymdrin â heriau allweddol dinasyddion yr UE sy’n byw yng Nghymru, yr adnoddau sydd ar gael i ddinasyddion yr UE ac effaith penderfyniad y DU i adael yr UE.

5.4 Er mwyn sicrhau bod argymhellion y prosiect yn ymarferol, yn dilyn y cyfweliadau â rhanddeiliaid cynhaliwyd gweithdy i ofyn am adborth gan randdeiliaid allweddol ar y canfyddiadau a'r argymhellion cyffredinol. Oherwydd cyfyngiadau teithio a orfodwyd gan y pandemig COVID-19, cynhaliwyd y gweithdy trwy gynhadledd fideo.

5.5 Y cyfranogwyr oedd cynrychiolwyr y llywodraeth, swyddogion cydlyniant cymunedol a rheolwyr prosiect yng Nghynghorau Sir Caerdydd, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Casnewydd, Wrecsam, Castell-nedd Port Talbot, yn ogystal â nifer o randdeiliaid a oedd yn cynrychioli sefydliadau gan gynnwys Settled, Cyngor ar Bopeth Cymru (Caerdydd a'r Fro, Conwy, yn ogystal â Chyngor ar Bopeth Sir y Fflint), Sefydliad Bevan, Prifysgol Caerdydd, TGP Cymru, EYST, a Phartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (WSMP). Dilyswyd yr argymhellion polisi yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwil ansoddol a meintiol gan randdeiliaid allweddol.

## Canlyniadau

### Heriau allweddol i ddinasyddion yr UE sy’n byw yng Nghymru

5.6 Wrth ofyn i randdeiliaid am yr heriau allweddol sy'n wynebu dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru, daeth pedair thema allweddol i'r amlwg: iaith, ansicrwydd, mynediad at fudd-daliadau a mynediad i'r farchnad lafur.

5.7 **Iaith**: Amlygodd llawer o randdeiliaid nad yw gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru bob amser yn cael eu cyfieithu ar gyfer dinasyddion yr UE, sy'n rhoi anhawster ychwanegol i bobl nad ydynt yn deall Saesneg. Mae'r bobl hyn angen cefnogaeth gan deulu neu ffrindiau yn eu bywydau bob dydd, yn enwedig pan fydd rhaid iddynt ymgysylltu â gwasanaethau cyhoeddus - megis ceisio am fudd-daliadau neu dalu trethi. Rhannodd ychydig o randdeiliaid hefyd straeon am ddinasyddion yr UE â sgiliau iaith Saesneg gwael a oedd angen cefnogaeth i wneud cais i Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE neu i hawlio hawliau statudol sy'n ymwneud â chyflogaeth.

5.8 Er bod disgwyl i bobl wella eu sgiliau iaith wrth iddynt fyw yng Nghymru, nid yw rhai yn dysgu Saesneg, hyd yn oed ar ôl byw yng Nghymru am flynyddoedd. Gwelir y ffenomen hon yn bennaf ymhlith ymfudwyr UE-8 ac UE-2. Amlygodd sampl fach o randdeiliaid, hyd yn oed pe cymerid camau i helpu dinasyddion yr UE sydd â sgiliau iaith gwael, megis cynnig cyrsiau iaith, y gallai'r nifer sy'n manteisio arnynt fod yn isel. Y rheswm pam efallai na fydd pobl, yn enwedig y rhai mewn swyddi sgiliau isel, yn gallu mynychu cyrsiau Saesneg yw eu bod yn gweithio oriau hir ac efallai nad oes ganddynt yr amser i fynychu'r dosbarthiadau.

5.9 **Ansicrwydd:** Mae pobl yn teimlo ansicrwydd ynghylch ymadawiad y DU â'r UE. Rhoddodd rhanddeiliaid enghreifftiau o ddinasyddion yr UE a oedd yn ansicr ynghylch eu cymhwysedd ar gyfer y Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ac eraill a oedd angen cefnogaeth gyda'u ceisiadau.

5.10 **Mynediad at fudd-daliadau:** Mae nifer o resymau efallai pam nad yw dinasyddion yr UE yn gwneud cais am fudd-daliadau y maent yn gymwys i’w cael. Ymhlith yr esboniadau dros beidio â chyrchu'r system fudd-daliadau mae'r ffaith nad yw dinasyddion yr UE o bosibl yn gallu deall sut mae'r system fudd-daliadau yn gweithio, neu diffyg hyfedredd iaith a TG. Yn ogystal, gallai dinasyddion yr UE nad ydynt wedi gwneud cais i Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE wynebu anawsterau wrth geisio am fudd-daliadau, yn enwedig o safbwynt hawliadau Credyd Cynhwysol. Adroddodd cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n cefnogi dinasyddion yr UE eu bod wedi helpu dinasyddion yr UE i gael mynediad i'r system fudd-daliadau, gan eu helpu i ddatrys materion sy'n ymwneud â'r Prawf Preswylio Arferol a sefydlu eu Hawl i Breswylio. Mae yna ddinasyddion yr UE hefyd sy'n penderfynu peidio â gwneud cais am fudd-daliadau hyd yn oed os ydynt yn gymwys i'w cael, rhag ofn y byddant yn cael eu gwarthnodi am wneud cais am fudd-daliadau yng Nghymru.

5.11 **Mynediad at y farchnad lafur:** Fel y dangosir ym Mhenodau 3 a 4, mae llawer o ymfudwyr o'r UE yn gwneud swyddi y maent yn or-fedrus ar eu cyfer. Ymhlith y rhesymau posibl am hyn mae diffyg trosi cymwysterau yn swyddogol rhwng gwledydd yr UE a Chymru. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw cymwysterau dinasyddion yr UE yn cael eu cydnabod yn swyddogol, gallai fod yn wir nad yw

cyflogwyr yn deall cymwysterau o wledydd tramor. Pwynt arall a amlygwyd yn ystod y cyfweliadau oedd bod dinasyddion yr UE sy'n ymfudo i Gymru yn aml yn mynd i mewn i farchnad lafur Cymru yn anffurfiol, yn enwedig pobl o alwedigaethau â sgiliau isel.

5.12 Adroddwyd hefyd am rai digwyddiadau o wahaniaethu yn y farchnad lafur. Yn gyntaf, efallai na fydd cyflogwyr yn hysbysu gweithwyr am eu hawliau llafur - er enghraifft, soniodd nifer o randdeiliaid fod rhai cyflogwyr yn cam-gyfrifo oriau gwaith gweithwyr yn fwriadol. Roedd digwyddiadau gwahaniaethu eraill yn cynnwys straeon am bobl yn cael eu gwrthod "oherwydd nad oeddent yn Brydeinwyr" ac enghreifftiau o bobl yn newid eu henwau wrth ymgeisio am swyddi, am eu bod swnio fel rhai o Ddwyrain Ewrop.

### Adnoddau sydd ar gael i ddinasyddion yr UE

5.13 Mae llawer o sefydliadau, gan gynnwys elusennau a chyrff sector cyhoeddus, sy'n cefnogi dinasyddion yr UE. Mae'r ymdrech hon wedi dwysáu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond yn ôl sampl fach o randdeiliaid, ni chafwyd cefnogaeth swyddogol i ddinasyddion yr UE cyn Refferendwm yr UE.

5.14 Mae sefydliadau yn ei chael hi'n heriol deall y ffordd orau i gysylltu â chymunedau'r UE yng Nghymru. Mae cymunedau'r UE yn chwarae rhan bwysig wrth integreiddio dinasyddion yr UE. Tuedda ymfudwyr a gyrhaeddodd yn ddiweddar i ryngweithio ag unigolion y maent yn rhannu cefndir cyffredin a chyfeiriadau diwylliannol â hwy, gan arwain at deimladau o berthyn. Y rhan fwyaf o'r amser, bydd dinesydd o'r UE a gyrhaeddodd yn ddiweddar hefyd yn dibynnu ar gymuned ei wlad enedigol, yn enwedig os oes ganddo sgiliau iaith Saesneg gwael, i ddod o hyd i wybodaeth am swyddi gwag, llety, sut i gael gafael ar fudd-daliadau, ac yn y blaen. Rhannodd rhanddeiliaid enghreifftiau o ddinasyddion yr UE a gafodd gefnogaeth i ddeall y gofynion i wneud cais i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a gwybodaeth am y broses ymgeisio. Rhannodd dinasyddion yr UE yr holl wybodaeth berthnasol â chymuned eu gwlad enedigol.

5.15 Nododd nifer o randdeiliaid, er mwyn cysylltu â chymuned o ddinasyddion yr UE, eu bod yn mynd yn aml at "arweinwyr cymunedol" yn gyntaf, sef dinasyddion yr UE sy'n gwirfoddoli yng nghymuned eu gwlad enedigol. Mae arweinwyr cymunedol yn

gallu siarad Saesneg a gallant gyfryngu rhwng y sefydliadau a'r gymuned. Fodd bynnag, mewn ardaloedd lle nad oes arweinwyr cymunedol, mae'n fwy heriol i sefydliadau gysylltu â chymuned UE. Yn ôl y rhanddeiliaid a gyfwelwyd, mae hyn yn digwydd yn amlach mewn ardaloedd gwledig. Amlygodd llawer o randdeiliaid a gyfwelwyd yr angen am bobl fwy arbenigol/ hyfforddedig a fyddai'n helpu i gysylltu â chymunedau'r UE.

5.16 Mater arall a gododd yn ystod y cyfweliadau oedd diffyg cyllid i sefydliadau ac elusennau, sy'n ei gwneud hi'n anodd cefnogi dinasyddion yr UE. Er bod angen cefnogaeth ar ddinasyddion yr UE mewn sawl maes, megis cyngor cyfreithiol a gwybodaeth am fudd-daliadau a thai, mae'r rhan fwyaf o adnoddau wedi'u neilltuo i helpu dinasyddion yr UE i wneud cais i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

5.17 Pan holwyd am y nifer sy'n manteisio ar yr adnoddau sydd ar gael i ddinasyddion yr UE, cytunodd y rhai a gyfwelwyd bod y nifer sy'n manteisio arnynt yn isel. Efallai bod sawl rheswm am hyn. Er enghraifft, efallai na fydd rhai o ddinasyddion yr UE yn ymwybodol o fodolaeth sefydliadau ac elusennau sy'n cefnogi dinasyddion yr UE. Cyfeiriodd rhai cyfweleion at ffyrdd posib o godi ymwybyddiaeth o'r adnoddau sydd ar gael trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, byddai dull cyfryngau cymdeithasol yn colli pobl â sgiliau TG gwael yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u heithrio'n ddigidol. Dull arall a awgrymwyd oedd rhoi gwybod i ddinasyddion yr UE am yr adnoddau sydd ar gael yn eu gweithle, gan fod y mwyafrif ohonynt yn gweithio oriau hir. Gellid hefyd egluro'r nifer isel sy'n manteisio ar yr adnoddau gan y ffaith nad yw pobl eisiau defnyddio'r adnoddau. Er enghraifft, efallai na fydd pobl eisiau chwilio am help oherwydd eu bod yn ofni na fydd pobl yn eu deall, yn enwedig pobl â sgiliau iaith gwael. Hefyd, nododd ychydig o unigolion ddiffyg ymddiriedaeth yn y llywodraeth.

### Effaith penderfyniad y DU i adael yr UE

5.18 Mater arall a gododd yn ystod y cyfweliadau oedd effaith penderfyniad y DU i adael yr UE ar ddinasyddion yr UE. Yn ôl rhanddeiliaid, mae dinasyddion yr UE yn teimlo'n ansicr ynghylch eu dyfodol, gan fod ofn ar lawer ohonynt na fyddant yn cael parhau i fyw yng Nghymru. Mae'r teimlad o rwystredigaeth hefyd yn gyffredin ymysg

dinasyddion yr UE, gan fod rhai ohonynt yn honni nad ydynt yn derbyn negeseuon clir gan y llywodraeth ynghylch a oes croeso iddynt yn yn y wlad. Honnodd rhanddeiliaid hefyd fod dinasyddion yr UE, sef y rhai a anwyd yn UE-8 ac UE-2 yn bennaf, yn ystyried dychwelyd i'w mamwlad oherwydd penderfyniad y DU i adael yr UE. Roedd hefyd enghreifftiau o bobl sy'n teimlo eu bod wedi cael eu sarhau oherwydd bod rhaid iddynt wneud cais i Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE i gael aros yn y wlad. Dinasyddion yr UE sydd wedi bod yng Nghymru ers amser maith yw'r rhain yn bennaf. Yn olaf, rhannodd rhanddeiliaid straeon am ddinasyddion yr UE sydd wedi profi troseddau casineb, a ddaeth yn fwy cyffredin yn ystod ac ar ôl ymgyrch Refferendwm yr UE. Amlygwyd bod agweddau tuag at ddinasyddion yr UE, yn enwedig ymfudwyr o UE-8 ac UE-2, wedi dod yn fwy gelyniaethus.

# Cyfweliadau ag unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-27

**Prif ganfyddiadau yn dilyn cyfweliadau ag unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-27:**

- Mae'r holl gyfweleion yn defnyddio'r Saesneg yn eu bywydau bob dydd. Cytunodd pob un ohonynt na fyddai'n bosibl byw yng Nghymru heb wybod Saesneg.
- Nododd mwyafrif y cyfweleion sy'n rhieni brofiadau cadarnhaol gydag ysgolion eu plant. Profodd nifer fach iawn o gyfranogwyr broblemau cyfathrebu lle'r oedd gwefannau ysgolion Cymraeg yn cael eu hysgrifennu yn Gymraeg yn unig.
- Newidiodd rhai cyfranogwyr eu gyrfa pan gyrhaeddont yng Nghymru, oherwydd (i) dewis personol, (ii) galw llafur isel, neu (iii) diffyg cydnabyddiaeth o'u cymwysterau. Dywedodd cyfweleion o wledydd UE-8 ac UE-2 eu bod yn gweithio mewn swyddi sgiliau isel pan gyrhaeddont yma gyntaf cyn dod o hyd i waith a oedd yn unol â'u sgiliau a'u profiad.
- Ymhlith y rhesymau dros beidio â hawlio budd-daliadau yr oedd ganddynt hawl iddynt, roedd i) nad oedd angen iddynt wneud hynny, ii) nad oeddent yn gwybod eu hawliau - roedd angen cyngor cyfreithiol arnynt, iii) roeddent yn wynebu problemau oherwydd nad oeddent wedi gwneud cais i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, iv) nododd eraill fesur o ddiffyg ymddiriedaeth yn y system fudd-daliadau.
- Roedd mwyafrif y cyfweleion wedi gwneud cais am statws sefydlog ond roedd ystod o statws mewnfudo: roedd rhai yn y broses o wneud cais am statws sefydlog, roedd eraill wedi gwneud cais am ddinasyddiaeth Brydeinig, roedd ychydig wedi ennill yr hawl i fyw am gyfnod amhenodol o dan y Cynllun Windrush, ac roedd gan rai ddinasyddiaeth ddeuol. Nododd rhai o'r bobl a wnaeth gais am ddinasyddiaeth Brydeinig deimlad o ddiffyg ymddiriedaeth yn y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Dywedodd ychydig o bobl eu bod nhw neu eu perthnasau agos wedi profi cam-drin hiliol oherwydd eu bod yn ddinasyddion yr UE.

## Methodoleg

5.19 Yn ychwanegol at yr ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid, cynhaliwyd cyfweliadau â 21 o unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-27 sy'n byw yng Nghymru, gan gynnwys unigolion o'r Almaen, Gwlad Pwyl, yr Iseldiroedd, Groeg, Rwmania, Ffrainc, Yr Eidal, a Sbaen.

5.20 Recriwtiwyd cyfweleion gyda chymorth cynrychiolwyr Setlled a Chyngor ar Bopeth. Fodd bynnag, yn dilyn anawsterau a wynebwyd wrth recriwtio dinasyddion a anwyd yn UE-27 gan y ddau sefydliad hyn, gwnaethom hefyd ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Yn benodol, postiwyd disgrifiad byr o'r prosiect a nod y cyfweliadau ar nifer o grwpiau

Facebook a ddarparwyd gan Settled ac a grëwyd gan ddinasyddion a anwyd yn UE-27 sy'n byw yng Nghymru (h.y. 'Groegiaid yng Nghymru', 'Pwyliaid yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a'r ardal gyfagos ', 'Rwmaniaid yng Nghaerdydd' ac yn y blaen). Mae'n debyg nad yw'r sampl o unigolion a gyfwelwyd yn gynrychioliadol o'r holl boblogaeth a anwyd yn UE-27 gan nad oedd yn broses recriwtio ar hap - er enghraifft, gallai'r holl bobl a gafodd eu cyfweld ddarllen Saesneg ac roedd ganddynt rywfaint o wybodaeth am TG. Yn ogystal, mae ymchwil flaenorol yn dangos bod nodweddion demograffig defnyddwyr Facebook yn wahanol i nodweddion y boblogaeth ehangach. Er enghraifft, yn ôl Blank & Lutz (2017), mae pobl ifanc a menywod yn fwy tebygol o ddefnyddio Facebook.

5.21 Roedd y cyfranogwyr yn 52 oed ar gyfartaledd, tra bod canolrif oed y sampl yn 40 oed, sydd ychydig yn is o'i gymharu ag oedran canolrifol poblogaeth Cymru, yr amcangyfrifwyd ei fod yn 42.5 yn 2019.[25] Hefyd, roedd 15 o'r cyfranogwyr yn fenywod (roedd 71 y cant yn y sampl yn fenywod, tra bod menywod yn cynrychioli 51 y cant o'r boblogaeth sy'n byw yng Nghymru), a'r amser cyfartalog a dreuliwyd yng Nghymru oedd 13 blynedd. Roedd y mwyafrif o'r cyfweleion yn byw yn ne Cymru, tra bod sampl fach yn byw yng nghanolbarth a gogledd Cymru. Roedd lefel addysgol uchaf y sampl yn amrywio o ddiploma ysgol uwchradd, i radd baglor/diploma, ac addysg ôl-raddedig neu radd meistr (Tabl 5.1).

**Tabl 5.1. Nodweddion pobl a anwyd UE-27 sy'n byw yng Nghymru a gymerodd ran yn y cyfweliadau**

| | **Geni yn UE-27** |
|---|---|
| **Oed ar gyfartaledd** | 52 |
| **Oed canolrifol** | 40 |
| Isafswm | 30 |
| Mwyafswm | 66 |
| **Menywod** | 15 |
| **Yr amser a dreuliwyd ar gyfartaledd yng Nghymru** | 13 blynedd |
| Isafswm | Llai na 3 blynedd |
| Mwyafswm | 25 mlynedd |
| **Cyfanswm y cyfweleion** | **21** |

[25] Adferwyd y data o set ddata'r SYG sy'n dwyn yr enw "Population estimates for the UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland: mid-2019", a ryddhawyd yn 2020.

5.22 Nod y cyfweliadau oedd gwirio p'un a yw rhai o ganfyddiadau'r dadansoddiad meintiol yn gyson â phrofiad byw yr unigolion a anwyd yn UE-27 sy'n byw yng Nghymru. Yn ogystal, roedd y cyfweliadau'n cynnwys cwestiynau penagored fel y gallai ymatebwyr rannu eu profiadau a'u mewnwelediadau ar eu proses integreiddio o ran meysydd integreiddio na ddadansoddwyd yn yr adran feintiol. Yn benodol, datblygwyd cwestiynau'r cyfweliad (i) yn seiliedig ar set gyfoethocach o ddangosyddion integreiddio a oedd, oherwydd cyfyngiadau data, wedi'u heithrio o'r dadansoddiad meintiol (h.y. gwybodaeth o'r iaith Saesneg, mynediad i addysg, cymdogaeth, cyfranogiad cymunedol a rhyngweithio cymdeithasol) a (ii) gyda'r nod o archwilio'r rhesymau y tu ôl i rai o'r canfyddiadau meintiol.

5.23 Roedd rhai o'r rhesymau y penderfynodd y cyfweleion a anwyd yn UE-27 symud i Gymru oedd: roeddent yn hoffi'r wlad, symud er mwyn eu hastudiaethau, oherwydd rhesymau cysylltiedig â gwaith, chwilio am well ansawdd bywyd, i ddysgu Saesneg, neu fe wnaethant ddilyn eu partneriaid. Pan ofynnwyd i unigolion a anwyd yn UE-27 adrodd am yr her fwyaf o fyw yng Nghymru, roedd yr atebion yn amrywio, gyda'r ymatebion amlaf (mewn trefn ddisgynnol): yr iaith Saesneg, gwahaniaethau diwylliannol rhwng eu mamwlad a Chymru, rhwystrau yn y farchnad lafur, sut y gallai byw yng Nghymru fod yn ddrud, proses mynediad i brifysgol, dim digon o gyngor cyfreithiol, a phenderfyniad y DU i adael yr UE.

## Canlyniadau

### Gwybodaeth o’r Gymraeg

5.24 Pan ofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn gwybod unrhyw Gymraeg, roedd yr atebion yn amrywio. Dywedodd mwyafrif y cyfweleion eu bod yn gwybod rhai geiriau Cymraeg a’u bod yn gallu deall Cymraeg llafar, nododd ychydig eu bod yn rhugl, tra nad oedd eraill yn gwybod unrhyw Gymraeg. Roedd y rhai a oedd yn gwybod peth Cymraeg naill ai wedi dysgu'r iaith ar eu pennau eu hunain, neu wedi mynychu cyrsiau Cymraeg a oedd fel arfer yn rhagofyniad ar gyfer eu swyddi.

5.25 Dengys tystiolaeth bod 13 y cant o boblogaeth Cymru yn siarad Cymraeg bob dydd, a bod y crynodiad uchaf o siaradwyr Cymraeg mewn Awdurdodau Lleol yng ngorllewin Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015b). Pan ofynnwyd a yw diffyg sgiliau

Cymraeg yn rhwystr ym mywydau beunyddiol cyfranogwyr, cytunwyd yn gyffredinol nad yw peidio â gwybod y Gymraeg yn effeithio ar eu rhyngweithio â phobl eraill. Fodd bynnag, amlygodd sampl fach fod gwybod Cymraeg yn bwysig i integreiddio i'r gymuned, yn enwedig mewn trefi bach. At hynny, nododd cyfweleion eraill fod gallu siarad Cymraeg yn ofyniad answyddogol mewn swyddi â chyflog uchel a bod angen sgiliau Cymraeg mewn sefydliadau cyhoeddus, ond nid yn y sector preifat.

## Cyfathrebu yn Saesneg

5.26 Gofynnwyd i unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-27 am lefel eu sgiliau iaith Saesneg. Ar ôl treulio peth amser yn y DU, nid oedd unrhyw gyfranogwr yn cael problem cyfathrebu yn Saesneg. Fodd bynnag, pan gyrhaeddodd y cyfranogwyr Gymru gyntaf, roedd rhai ohonynt wedi byw yn Lloegr, ac roeddent eisoes yn rhugl. Roedd eraill yn rhugl oherwydd eu bod yn ddwyieithog, tra bod rhai wedi dysgu Saesneg cyn symud i Gymru. Fe wnaeth sawl cyfwelai wella eu sgiliau iaith Saesneg wrth fynd i brifysgol cyfrwng-Saesneg yng Nghymru. Roedd y rhai a oedd yn gwybod Saesneg sylfaenol pan gyrhaeddon nhw Gymru gyntaf wedi cymryd cyrsiau iaith Saesneg neu roeddent yn ymarfer ar eu pennau eu hunain trwy siarad â ffrindiau Saesneg eu hiaith neu ddarllen llyfrau a phapurau newydd. Ar y cyfan, cytunodd pawb na fyddai'n bosibl byw yng Nghymru heb wybod Saesneg, gan fod pob un ohonynt yn defnyddio Saesneg yn eu bywydau bob dydd.

## Mynediad at addysg

### Profiadau personol

5.27 Roedd sawl cyfranogwr wedi astudio yng Nghymru; aeth eraill i'r coleg neu i'r brifysgol i astudio ar gyfer gradd baglor, ôl-raddedig neu feistr, neu fe wnaethant fynychu cyrsiau hyfforddi. Pan holwyd hwy yn benodol am y broses gofrestru, nododd rhai cyfranogwyr fod llawer o fiwrocratiaeth a diffyg cefnogaeth, ystyriwyd bod y broses yn hir iawn, tra bod rhai yn wynebu anawsterau gyda cheisiadau ar-lein. Dywedodd eraill nad oedd y gweithdrefnau cofrestru yn anodd, a bod gweinyddiaeth y brifysgol yn ddefnyddiol ac yn gefnogol.

5.28 Fodd bynnag, gallai pobl o wledydd UE-8 wynebu problemau gyda diffyg cydnabyddiaeth o'r cymwysterau a gawsant yn eu mamwlad. Yn benodol, ni

dderbyniwyd nifer fach iawn o gyfweleion i brifysgol oherwydd nad oeddent yn cydnabod eu cymwysterau.

"Mae fy addysg yn anweladwy yma [yng Nghymru]"

**Profiad gydag ysgolion**

5.29 Roedd gan nifer o'r cyfweleion blant sy'n mynychu naill ai ysgolion cyfrwng Saesneg neu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Nododd mwyafrif y rhieni brofiadau cadarnhaol gydag ysgolion, ynghyd â pherthynas dda ag athrawon a rhieni eraill. Cafodd nifer fach iawn o'r cyfweleion broblemau cyfathrebu pan ysgrifennwyd gwefannau ysgolion Cymraeg eu plant yn Gymraeg yn unig.

5.30 Nododd nifer fach iawn o'r cyfweleion fod eu plant wedi profi hiliaeth naill ai gan athrawon neu blant eraill. Fodd bynnag, nid oedd mwyafrif y cyfranogwyr wedi profi hiliaeth.

## Mynediad at y farchnad lafur

5.31 Roedd y sampl a gyfwelwyd yn cynnwys pobl a oedd yn gweithio yn y sector cyhoeddus a phreifat, yn hunangyflogedig, yn ogystal â phobl wedi ymddeol. Dechreuodd rhai pobl eu gyrfaoedd yng Nghymru, oherwydd iddynt fewnfudo ar ôl cwblhau eu haddysg yn eu mamwlad, neu ar ôl cwblhau eu hastudiaethau yng Nghymru a phenderfynu parhau ym marchnad lafur Cymru. Roedd cyfweleion eraill yn parhau i fod â'r un alwedigaeth ag yr oeddent yn y wlad flaenorol yr oeddent yn byw ynddi (naill ai Lloegr neu eu mamwlad).

5.32 Nododd sampl o gyfranogwyr eu bod yn dilyn llwybr gyrfa hollol wahanol, naill ai oherwydd mai dyna oedd eu dewis personol oherwydd y galw isel am lafur, neu oherwydd diffyg cydnabyddiaeth o'u cymwysterau. Mae'r olaf yn golygu nad oedd cymwysterau pobl yn cael eu cydnabod yn swyddogol, neu nad oedd cyflogwyr yn deall cymwysterau o wlad dramor.

5.33 Ar ôl cyrraedd, nododd rhai pobl eu bod wedi dechrau gweithio mewn swydd wahanol, fel arfer heb gysylltiad â'u galwedigaeth cyn symud i Gymru, gan eu bod yn barod i dderbyn unrhyw gyflogaeth. Dechreuodd y rhan fwyaf o gyfweleion UE-8 ac UE-2 weithio mewn swyddi â sgiliau isel (megis cymorth iechyd a gofal, ffatrïoedd, glanhau a pharatoi bwyd) cyn dod o hyd i swydd yn fwy unol â'u sgiliau

a'u profiad. Roedd ychydig yn parhau i weithio mewn swyddi sgiliau isel, gan eu bod yn teimlo nad oes ganddynt wybodaeth am yr opsiynau sydd ar gael iddynt, na sut i ddatblygu eu sgiliau a'u cymwysterau.

> “Nid wyf yn gwybod beth i'w wneud i ffitio yn y farchnad swyddi.”

**Rhagfarn gan gyflogwyr a diffyg cydnabyddiaeth o gymwysterau**

5.34 Mewn rhai cyfweliadau, amlygwyd y diffyg cydnabyddiaeth o gymwysterau yng Nghymru. Dywedodd nifer fach iawn o'r rhai a gyfwelwyd y gallai Canolfan Gwybodaeth Cydnabyddiaeth Genedlaethol y DU (UK NARIC), sy'n asiantaeth genedlaethol sy'n helpu mewnfudwyr i drosi eu cymwysterau yn swyddogol, gydnabod eu cymwysterau yn swyddogol. Fodd bynnag, roedd yr un sampl yn teimlo, hyd yn oed pan fo cymwysterau dinasyddion yr UE, yn bennaf o wledydd UE-8 ac UE-2, yn cael eu cydnabod, nad yw cyflogwyr yn dal i ddeall cymwysterau o wlad dramor. Mae'r canlyniad hwn yn gyson â chanfyddiadau'r cyfweliadau gyda rhanddeiliaid.

5.35 Yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfweliadau â phobl o wledydd UE-8 ac UE-2, soniwyd bod ystrydebau yn y farchnad swyddi o hyd a llai o gyfleoedd ar eu cyfer. Er enghraifft, amlygodd rhai cyfweleion a anwyd yng ngwledydd UE-2 eu bod yn teimlo bod pobl o wledydd UE-2, gan gynnwys mewnfudwyr sgiliau canolig a sgiliau uchel, yn tueddu i beidio â chael cynnig swyddi parhaol. Soniodd ychydig o gyfranogwyr UE-8, oherwydd y gwahaniaethu presennol yn y farchnad lafur, bod rhaid iddynt newid eu henw sy'n swnio fel un o Ddwyrain Ewrop i enw sy'n swnio'n Seisnig er mwyn sicrhau cyfweliadau swydd - soniwyd am hyn hefyd yn ystod cyfweliadau â rhanddeiliaid. Adroddodd nifer fach fod “rhaid i [bobl o Ddwyrain Ewrop] weithio ddwywaith mor galed” â phobl Cymru i ddringo'r ysgol yrfa. Barn arall a fynegwyd yn aml yn ystod cyfweliadau oedd bod llawer o weithwyr gor-fedrus o UE-8, fel yr amlygwyd ym Mhenodau 3 a 4.

## Mynediad at fudd-daliadau

5.36 Pan ofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent erioed wedi gwneud cais am fudd-dal, roedd yr atebion yn amrywio. Roedd y canfyddiadau yn unol â chasgliadau'r ymchwil ansoddol gyda rhanddeiliaid. Yn benodol, gofynnwyd ymhellach i bobl a

wnaeth gais am fudd-dal (gan gynnwys budd-dal plant, lwfans ceisio gwaith, treth gyngor, credyd treth) am y weithdrefn ymgeisio. Roedd rhai yn ei chael yn syml, tra bod gweddill yr ymgeiswyr o'r farn bod y weithdrefn yn “gymhleth, llawn straen”, a bod angen “gormod o waith papur” arni. Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr y gallai gwell sgiliau iaith Saesneg/Cymraeg, sgiliau TG a mwy o wybodaeth am sut i wneud cais eu helpu gyda'r broses o wneud cais am fudd-daliadau.

5.37 Nododd sawl cyfranogwr nad oeddent erioed wedi gwneud cais am fudd-dal am amryw resymau. Nid oedd angen i rai o'r cyfweleion wneud cais am fudd-dal. Nid oedd eraill yn gwybod eu hawliau - honnodd cyfweleion nad oeddent wedi derbyn unrhyw gyngor cyfreithiol ar ba fudd-daliadau y maent yn gymwys i'w cael, a sut i fwrw ymlaen â chais. Yn wir, dysgodd pobl a wnaeth gais am fudd-dal am eu cymhwysedd gan ffrindiau neu eu cymuned UE. Nododd sampl fach iawn o gyfweleion na allent gael mynediad i'r system fudd-daliadau oherwydd nad oeddent wedi derbyn eu statws ‘cyn-preswylio’n sefydlog’ eto. Nododd ychydig o ymatebwyr nad oeddent am wneud cais am fudd-daliadau gan eu bod yn mynegi syniad o ddiffyg ymddiriedaeth yn y system fudd-daliadau. Yn benodol, roeddent yn “ofni y byddent [yn] cael eu rhoi mewn sefyllfa ariannol wael oherwydd yr angen iddynt [roi] yr arian [a gawsant] yn ôl”. Nododd sampl fach iawn eu bod wedi profi sefyllfa debyg yn y gorffennol, lle na chawsant wybodaeth gywir gan weithwyr asiantaeth a'u bod wedi parhau i dderbyn budd-dal nad oeddent yn gymwys i’w gael.

## Mynediad at wasanaethau gofal iechyd

5.38 Wrth gael eu holi am ansawdd gwasanaethau gofal iechyd, cytunodd bron pawb eu bod yn fodlon â'r gofal a gawsant yng Nghymru. At hynny, atebodd mwyafrif yr ymatebwyr fod cofrestru gyda meddyg teulu yn weithdrefn hawdd, er bod sampl fach iawn wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen llawer o waith papur ar y cofrestriad. Dywedodd ychydig eu bod yn adnabod pobl sydd wedi byw yng Nghymru ers blynyddoedd ond nad ydynt yn gwybod sut i gofrestru gyda meddyg teulu.

5.39 Amlygwyd yr angen am wybodaeth gywir am y system gofal iechyd hefyd yn ystod rhai cyfweliadau. Amlygodd sampl fach iawn y gwahaniaethau rhwng y system gofal iechyd yng Nghymru a'r system gofal iechyd yn eu gwlad enedigol, gan awgrymu'r angen am wybodaeth ar sut i gael mynediad i'r system gofal iechyd yng Nghymru.

Siomwyd rhai cyfweleion gan y ffaith bod yn rhaid i berson â phroblem gymhleth sydd angen ymgynghorydd arbenigol ymweld â meddyg teulu yn gyntaf.

Teimlai ychydig o gyfweleion nad yw'r system gofal iechyd sylfaenol yn gweithio'n dda oherwydd materion gweinyddol. Roedd rhai cyfranogwyr yn siomedig gyda'r oedi cyn cael apwyntiad neu ganlyniadau profion. Dywedodd mwyafrif y cyfweleion a anwyd yng ngwledydd UE-8 fod yn well ganddynt fynd i'w gwlad enedigol i gael profion cyffredinol, hyd yn oed os oes rhaid iddynt dalu amdanynt.

"Mae'n well gen i fynd yn ôl i [y wlad enedigol] i gael fy mhrofion gwaed, gan na allaf aros am ganlyniadau mewn ansicrwydd."

## Cymdogaeth, cyfranogiad cymunedol a rhyngweithio cymdeithasol

5.40 Pan ofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn hoffi eu cymdogaethau, roedd y mwyafrif yn hapus gyda'r siopau a'r cyfleusterau a ddarparwyd. Un gŵyn gan sampl fach iawn o gyfweleion oedd diffyg cysylltiadau cludiant yn eu cymdogaeth. O ran perchentyaeth, amlygodd nifer gyfyngedig o gyfweleion eu bod yn "teimlo [eu bod] wedi cael eu gorfodi i brynu tŷ" pan gyrhaeddont yng Nghymru, gan "na allent [rentu] llety oherwydd nad oedd ganddynt warantwr", yn ogystal â'u bod yn "estroniaid".

5.41 Roedd y mwyafrif o bobl yn byw mewn cymdogaethau rhyngwladol. Roedd gan rai o'r ymatebwyr berthynas agos â'u cymdogion, gan olygu y gallent gael paned gyda'i gilydd, eu bod yn trefnu partïon, neu yn siopa i'w gilydd yn ystod y cyfnod clo diweddar oherwydd y pandemig COVID-19. Ar ben hynny, nododd llawer o gyfweleion eu bod wedi cymryd rhan weithgar mewn gweithgareddau cymunedol, gan gynnwys cymryd rhan mewn cyrsiau, grwpiau myfyrio, digwyddiadau chwaraeon, mynd i'r dafarn, neu'r eglwys. Amlygodd sampl fach iawn eu bod yn ymwneud â chymuned Gymreig, ond ar ôl y refferendwm, roeddent yn teimlo'n ddigroeso ac wedi penderfynu peidio â chymryd rhan mewn gweithgareddau gyda phobl Brydeinig.

5.42 Pan ofynnwyd i'r cyfweleion a oedd ganddynt ffrindiau yng Nghymru, nododd bron pawb fod ganddynt ffrindiau yng Nghymru y maent yn treulio amser gyda nhw. Roedd gan y mwyafrif o'r sampl ffrindiau oedd yn dod o Gymru, Lloegr, gwledydd

eraill yr UE, gan gynnwys eu mamwlad, yn ogystal â gwledydd y tu allan i'r UE. Nododd nifer fach iawn o gyfranogwyr eu bod, ar ôl y refferendwm, wedi gwneud ffrindiau â dinasyddion eraill yr UE sy'n byw yng Nghymru gan eu bod yn teimlo eu bod yn "rhannu'r un pryderon”.

### Effaith penderfyniad y DU i adael yr UE

5.43 Pan ofynnwyd i'r cyfweleion sut oedd penderfyniad y DU i adael yr UE wedi effeithio arnynt, roedd yr atebion yn amrywio o “dim effaith”, i “effaith broffesiynol” ac “effaith seicolegol”. Yn benodol, roedd cyfweleion yr oedd eu busnesau'n dibynnu ar fasnach yn poeni na fyddant yn gallu allforio eu nwyddau i wledydd yr UE, gan na fydd y gweithdrefnau gweinyddol yn hawdd. O ran effaith seicolegol ymadawiad y DU o’r UE sydd ar y gweill, nododd y rhan fwyaf o’r cyfweleion ers refferendwm yr UE, nad oeddent bellach yn teimlo’n gartrefol na bod croeso iddynt, a’u bod yn teimlo’n “ofnus, ansicr, a siomedig”.

> “Roeddwn i'n teimlo'n integredig iawn yng Nghymru cyn Brexit, ac nid oedd fy nhreftadaeth UE yn broblem. Ar ôl Brexit nid wyf bellach yn teimlo fy mod wedi fy integreiddio cystal, a hefyd rwyf wedi dechrau pwysleisio fy nhreftadaeth [gwlad fy ngeni] yn gryfach nag y gwnes i yn y gorffennol…”

Roedd mwyafrif y cyfweleion yn teimlo'n bryderus am effaith ymadawiad y DU o'r UE ar wahanol agweddau, gan gynnwys economi Cymru, cyllid a masnach yr UE, eu hawl i dderbyn triniaeth feddygol, eu hawl i bleidleisio, ffioedd prifysgol, yn ogystal â rhwyddineb o deithio.

5.44 Roedd y rhan fwyaf o gyfweleion UE-8 ac UE-2 yn teimlo eu bod yn dioddef gwahaniaethu, ac nad oeddent yn cael eu trin yn gyfartal oherwydd eu gwreiddiau yn yr UE, yn enwedig yn y system addysg a'r farchnad lafur. Roedd y teimlad o wahaniaethu yn bodoli hyd yn oed cyn penderfyniad y DU i adael yr UE, ond dwyshaodd yn ddiweddar. Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod yn “teimlo ofn pobl Gymreig sydd â rhagfarn a thuedd”. Nododd sampl fach iawn eu bod nhw neu eu perthnasau agos wedi profi cam-drin hiliol oherwydd eu bod yn ddinasyddion yr UE.

5.45 Pan ofynnwyd iddynt am eu dyfodol yng Nghymru, nododd bron pawb eu bod am barhau i fyw yng Nghymru. At y diben hwn, roedd mwyafrif y sampl wedi cymhwyso

a derbyn statws sefydlog neu statws ‘cyn-preswylio’n sefydlog’, tra bod sampl gyfyngedig iawn yn y broses o wneud cais i Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Roedd y mwyafrif o’r rhai a aeth ymlaen i wneud cais i Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn teimlo bod y weithdrefn yn hawdd, er nad oedd sampl fach “yn ei chael yn llyfn nac yn syml iawn”, a dywedasant ei bod “angen gormod o waith papur”.

5.46 Nododd ychydig o'r cyfweleion a oedd yn y broses o wneud cais i Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE eu hofn y bydd eu ceisiadau yn cael eu gwrthod. Disgrifiodd yr unigolion hyn eu bod yn benderfynol cael y broses ymgeisio yn iawn er mwyn cynyddu'r siawns o dderbyn statws sefydlog. O'r rhai a oedd wedi gwneud cais am ddinasyddiaeth Brydeinig, nododd y mwyafrif eu bod yn teimlo bod y weithdrefn yn “fwy diogel”, er ei bod yn ddrutach. Mynegodd rhan o'r sampl a wnaeth gais am ddinasyddiaeth Brydeinig deimlad o ddiffyg ymddiriedaeth yn y Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

> “Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd gan ddinasyddion yr UE yr un hawliau [o dan y Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE]”

Roedd rhai cyfweleion sydd wedi byw yn y DU ers blynyddoedd lawer wedi ennill yr hawl i fyw am gyfnod amhenodol o dan y Cynllun Windrush, ac roedd gan sampl fach iawn ddinasyddiaeth ddeuol. Er bod mwyafrif y cyfweleion wedi mynegi eu hawydd i aros yng Nghymru, roedd gan bron pawb “gynllun B”, a oedd yn cynnwys mynd yn ôl i’w mamwlad, neu wlad arall yn yr UE, os na allant barhau i fyw yng Nghymru.

# 6. Argymhellion a chasgliadau polisi

**Argymhellion polisi ar gyfer integreiddio ymfudwyr UE sy'n byw yng Nghymru**

(1) **Mae pobl eisiau teimlo fod croeso iddynt:** Cynnal ymgyrch i'w croesawu'n gyffredinol i gefnogi creu cymunedau croesawgar a chynhwysol ac atgyfnerthu gwerth amrywiaeth a chynwysoldeb.

(2) **Gwell mynediad at wybodaeth:** Datblygu porth ar-lein sy'n darparu trosolwg byr a dolenni i wefannau swyddogol am bob agwedd ar integreiddio i ddinasyddion yr UE. Ar gyfer pob maes, gallai'r porth gynnwys esboniad cryno ynghylch sut mae pob gwasanaeth yn gweithio yn holl ieithoedd yr UE.

(3) **Mwy o gefnogaeth a rôl fwy gweithredol i sefydliadau sy'n gweithio yn y maes hwn:** (i) Darpariaeth ariannu ddiogel a hirdymor i sefydliadau. (ii) Cyswllt rhwng sefydliadau a chymunedau: Gellid hysbysu dinasyddion UE-27 o'r gwasanaethau sydd ar gael a ddarperir gan sefydliadau yn ôl eu priod gymunedau.

***Argymhellion polisi sy'n targedu integreiddio unigolion a anwyd yng ngwledydd yr UE-8 a'r UE-2 ac sy'n byw yng Nghymru***

(4) **Mynediad i'r farchnad lafur:** (i) Dylid hysbysu pobl o sut y gellir cydnabod eu cymwysterau yng Nghymru, a chefnogi cyflogwyr i gynyddu eu dealltwriaeth o gymwysterau o wledydd yr UE. (ii) Cyngor gyrfa a gwybodaeth am gyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol.

(5) **Gwella sgiliau iaith:** Help gyda gwella sgiliau Saesneg trwy wersi Saesneg yn y gymuned neu'r gweithle. Darparu cymhellion i gyflogwyr ddarparu gwersi Saesneg yn y gwaith.

Gall argymhellion polisi (4) a (5) hefyd fod yn berthnasol i ddinasyddion yr UE sy'n wynebu materion tebyg i boblogaethau a anwyd yn UE-8 ac UE-2 ac sydd angen cefnogaeth briodol.

6.1 Nod yr adroddiad hwn oedd archwilio cyfleoedd a chanlyniadau dinasyddion yr UE ar draws gwahanol barthau a nodi meysydd ar gyfer gwella integreiddio. Gan ddefnyddio'r dangosyddion integreiddio a ddatblygwyd gan y Swyddfa Gartref, mae canlyniadau dinasyddion a anwyd yn UE-27 sy'n byw yng Nghymru yn cael eu cymharu â chanlyniadau dinasyddion a anwyd yng Nghymru sy'n byw yng Nghymru gan ddefnyddio data o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018-2019). Cymharir y canlyniadau ar draws gwahanol gategorïau: cyflogaeth, tai, iechyd a budd-daliadau, a sgiliau iaith a hunaniaeth genedlaethol.

6.2 Dewiswyd y dangosyddion integreiddio ar sail argaeledd data. Oherwydd y cyfyngiadau a ddangosir gan setiau data eraill a archwiliwyd (h.y. Deall Cymdeithas), yn bennaf oherwydd maint sampl bach neu ddiffyg gwybodaeth fanwl am wlad enedigol yr ymatebwyr, mae ein dadansoddiad yn dibynnu'n bennaf ar y wybodaeth a gynhwysir yn yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2018- 2019). Gwnaeth hyn atal yr astudiaeth hon rhag dadansoddi set gyfoethocach o ddangosyddion integreiddio.

6.3 Rydym yn dadansoddi canlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau o ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru (h.y. o ran demograffeg sylfaenol; blwyddyn cyrraedd; macro-ardal darddiad yn Ewrop) i nodi a oes grwpiau sy'n wynebu anawsterau cynyddol i integreiddio i gymunedau, o'u cymharu â dinasyddion UE arall a'r boblogaeth ehangach sy'n byw yng Nghymru.

6.4 Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys tystiolaeth ansoddol a gasglwyd trwy gyfweliadau â dinasyddion yr UE, swyddogion llywodraeth leol a sefydliadau sy'n darparu cefnogaeth a gwasanaethau i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru. Nod y dadansoddiad ansoddol yw (i) archwilio'r broses integreiddio ehangach, gan ystyried meysydd y tu hwnt i'r rhai a ddadansoddwyd yn yr adran feintiol, (ii) archwilio'r cysondeb rhwng data cyhoeddedig a phrofiadau byw sampl o unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-27 ac sy'n byw yng Nghymru, a (iii) llywio'r dadansoddiad meintiol trwy ddarparu ystod amrywiol o safbwyntiau na chawsant eu dal gan ddefnyddio data cyfanredol sydd eisoes yn bodoli.

6.5 Oherwydd yr anawsterau a wynebwyd i recriwtio dinasyddion a anwyd yn UE-27 trwy Settled a Chyngor ar Bopeth, defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol. Yn benodol, postiwyd disgrifiad byr o'r prosiect a nod y cyfweliadau ar nifer o grwpiau Facebook a grëwyd gan ddinasyddion a anwyd yn UE-27 sy'n byw yng Nghymru. Un cyfyngiad ar ddull cyfryngau cymdeithasol yw ei fod yn methu pobl â sgiliau TG gwael, yn ogystal â'r rhai sydd wedi'u heithrio yn ddigidol. Yn ogystal, mae ymchwil flaenorol yn dangos bod nodweddion demograffig defnyddwyr Facebook yn wahanol i nodweddion y boblogaeth ehangach. Er enghraifft, yn ôl Blank & Lutz (2017), mae pobl ifanc a menywod yn fwy tebygol o ddefnyddio Facebook.

6.6 Gan ddefnyddio dadansoddiad meintiol wedi'i lywio gan ymchwil ansoddol, daw'r astudiaeth i'r casgliad y dylai camau polisi ganolbwyntio ar bob dinesydd UE-27 sy'n byw yng Nghymru, gyda rhai'n canolbwyntio'n arbennig ar ddinasyddion yr UE sydd wedi cyrraedd yn ddiweddar. Ochr yn ochr â'r argymhellion cyffredinol hyn, ceir rhai sy'n targedu pobl UE-8 ac UE-2 sy'n byw yng Nghymru.

## Argymhellion polisi sy'n targedu integreiddio ymfudwyr o’r UE yng Nghymru

6.7 **(1) Mae dinasyddion yr UE eisiau teimlo bod croeso iddynt**: Fel y cyflwynwyd yn gynharach, mae llawer o ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru yn teimlo ansicrwydd ynghylch ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl y gwnaethom eu cyfweld fel rhan o'r astudiaeth hon yn credu nad yw'r llywodraeth yn rhoi negeseuon clir ynghylch a oes croeso i ddinasyddion yr UE yn y wlad ai peidio. Un mecanwaith a gynigiwyd gan y cyfweleion i wneud i ddinasyddion yr UE deimlo bod croeso iddynt ar ôl i'r DU adael yr UE yw cynnal ymgyrch i'w croesawu. Rydym yn argymell bod nodau'r ymgyrch groeso ar gyfer cynulleidfa gyffredinol gan gynnwys sbectrwm lawn dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru, o fewnfudwyr tymor hir sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru i'r rhai sydd wedi cyrraedd yn gymharol ddiweddar, gan fod pobl o'r holl grwpiau hyn wedi cael eu heffeithio gan bleidlais refferendwm yr UE. Dylai nod yr ymgyrchoedd fod i greu cymunedau croesawgar a chynhwysol ac atgyfnerthu gwerth amrywiaeth a chynwysoldeb. Gallai'r ymgyrch fod â'r nod ychwanegol o annog teimlad cadarnhaol ymhlith poblogaeth Cymru tuag at ddinasyddion yr UE trwy amlinellu eu cyfraniadau i Gymru. Gan fod yr ymgyrch yn anelu at gyrraedd pobl o sawl ddemograffeg, dylai ddefnyddio dull eang, gan gynnwys hysbysfyrddau, negeseuon radio/teledu a chyfryngau cymdeithasol.

6.8 Enghraifft lwyddiannus o ymgyrch i'w croesawu sy'n dibynnu ar gyfryngau cymdeithasol yw ymgyrch croeso 'London Is Open' a redir gan Faer Llundain, a'i neges yw “Mae Llundain yn unedig ac yn agored i fusnes ac i'r byd”.[26] Mae'r Maer, yn ogystal â sefydliadau eraill, wedi creu cynnwys, fel fideos YouTube, i hyrwyddo'r

[26] Mae mwy o wybodaeth am ymgyrch London Is Open.

ymgyrch. Gall pob Llundeiniwr gefnogi'r ymgyrch, er enghraifft, trwy rannu ei gynnwys neu negeseuon croeso trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

6.9 **(2) Gwell mynediad at wybodaeth**: Un o'r rhwystrau a grybwyllir amlaf i gyfle cyfartal yw diffyg gwybodaeth, yn enwedig wrth gyrraedd Cymru. Er enghraifft, un rheswm posibl i unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-27 beidio â gwneud cais am fudd-daliadau y maent yn gymwys amdanynt yw'r diffyg gwybodaeth am eu hawliau a'r diffyg cyngor cyfreithiol. Er mwyn goresgyn y rhwystr gwybodaeth, dylai Llywodraeth Cymru ystyried adeiladu porth ar-lein gan ddarparu trosolwg byr a dolenni i wefannau swyddogol am bob agwedd ar integreiddio i ddinasyddion yr UE (gellid ymestyn hyn i fewnfudwyr o'r tu allan i'r UE). Dylai'r porth fod yn siop un stop ar gyfer gwybodaeth ar gyfer newydd-ddyfodiaid i Gymru. Gellid strwythuro'r porth o amgylch Dangosyddion Integreiddio'r Swyddfa Gartref, e.e. budd-daliadau, gofal iechyd, addysg, hawliau a chyfrifoldebau. Ar gyfer pob maes, gallai'r porth gynnwys esboniad cryno ynghylch sut mae pob gwasanaeth yn gweithio yng Nghymru yn holl ieithoedd yr UE. Yna gallai'r porth ddarparu dolenni i wefannau perthnasol, gan gynnwys gwefannau swyddogol y sector cyhoeddus, e.e. gwefan y GIG ar gyfer sut i gofrestru gyda meddyg teulu, yn ogystal â gwybodaeth am gefnogi sefydliadau, e.e. gwefan Cyngor ar Bopeth ynghylch defnyddio meddyg teulu GIG yng Nghymru.

6.10 **(3) Mwy o gefnogaeth a rôl fwy gweithredol i sefydliadau sy'n gweithio yn y maes hwn:** Mae sefydliadau ac elusennau sy'n cynnig cefnogaeth i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru yn chwarae rhan hanfodol yn eu hintegreiddio (h.y. Cyngor ar Bopeth, Settled, ayb). Mae gan y sefydliadau hyn brofiad a chysylltiadau mewn cymunedau gan gynnwys gyda dinasyddion yr UE. Yn seiliedig ar y cyfweliadau â rhai rhanddeiliaid, gall darparu cyllid yn ddiogel ac yn y tymor hir i'r sefydliadau a'r elusennau hyn eu galluogi i gefnogi dinasyddion yr UE dros wahanol feysydd integreiddio. Dylai'r cyllid hwn gael ei fwriadu i ddarparu cefnogaeth i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru mewn meysydd fel gwneud cais am fudd-daliadau, y system gofal iechyd, hawliau dinasyddion yr UE ar ôl i'r DU adael yr UE, system gyfreithiol Cymru, mynediad i'r farchnad lafur ac i gefnogi mentrau sy'n hysbysebu'r gwasanaethau a ddarperir i ddinasyddion yr UE yn y gymuned leol. Gellid defnyddio cyllid hefyd i gyflogi a hyfforddi arweinwyr cymunedol sy'n hysbys i'r gymuned ac y gellir ymddiried ynddynt, fel eu bod mewn sefyllfa dda i

gynnig gwybodaeth a chefnogaeth i annog cynhwysiant a chydlyniant cymdeithasol yn y cymunedau.

## Argymhellion polisi sy’n targedu integreiddio unigolion a anwyd yng ngwledydd UE-8 a’r UE-2 ac sy’n byw yng Nghymru

6.11 Mae'r argymhellion polisi canlynol yn arbennig o bwysig i boblogaethau a anwyd yn UE-8 ac UE-2, gan ei bod yn ymddangos eu bod wir angen cymorth perthnasol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn awgrymu na allai ymfudwyr eraill o'r UE sy'n wynebu problemau tebyg elwa o'r argymhellion polisi hyn.

6.12 **(4) Mynediad i’r farchnad lafur:** Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwil meintiol ac ansoddol, mae gweithwyr UE-8 ac UE-2 wedi'u crynhoi mewn swyddi y maent yn or-fedrus ar eu cyfer. Gellid esbonio'r nifer sylweddol o weithwyr UE-8 ac UE-2 sy'n or-fedrus gan y diffyg trosi cymwysterau yn swyddogol rhwng eu gwledydd cartref a Chymru. Fodd bynnag, hyd yn oed os yw cymwysterau gweithwyr UE-8 ac UE-2 yn cael eu cydnabod yn swyddogol, efallai na fydd cyflogwyr yn dal allu deall cymwysterau o wledydd tramor.

6.13 Datgelodd y cyfweliadau straeon am weithwyr UE-8 ac UE-2 a oedd yn gweithio mewn swyddi â sgiliau isel pan gyrhaeddont yng Nghymru gyntaf (fel glanhau tai neu weithio mewn ffatrïoedd) cyn dod o hyd i gyflogaeth yn fwy unol â'u sgiliau a'u profiad. Gwelwyd bod ymfudwyr UE-8 ac UE-2 a gyrhaeddodd yn ddiweddar yn barod i dderbyn unrhyw swydd sydd ar gael, er gwaethaf lefel eu sgiliau a'u profiad. Gellid egluro'r ffenomen hon gan y ffaith efallai nad oes gan bobl wybodaeth gywir am swyddi gwag yng Nghymru a'r cymwysterau y mae marchnad lafur Cymru eu hangen, yn enwedig pan fyddant yn cyrraedd y wlad gyntaf.

6.14 Dylid darparu gwybodaeth i ddinasyddion yr UE, yn enwedig y rhai o wledydd UE-8 ac UE-2, ar sut y gellir cydnabod eu cymwysterau yng Nghymru (dylid cynnwys y wybodaeth hon ar y porth). Gallai Llywodraeth Cymru gynhyrchu adnoddau i helpu cyflogwyr i ddod yn fwy ymwybodol o gymwysterau o wledydd yr UE. Gallai’r adnoddau hyn fod ar ffurf dogfennau cyfeirio diwydiant-benodol sy’n egluro cymwysterau holl wledydd yr UE a’r hyn sy’n cyfateb iddynt yn y DU, gan gynnwys

sut i nodi perfformiad, e.e. beth sy'n cyfateb i radd anrhydedd dosbarth 1af, 2:1, ac yn y blaen.

6.15 Yn ogystal, mae angen darparu cyngor gyrfa, gan gynnwys gwybodaeth am gymwysterau sy'n ofynnol ym marchnad lafur Cymru a chyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol, gan dargedu unigolion o wledydd UE-8 ac UE-2 (gallai hyn fod yn rhan o'r porth a chynnwys dolenni i sefydliadau cefnogol).

6.16 **(5) Gwella sgiliau ieithyddol:** Mae gwybodaeth o'r iaith Saesneg yn hanfodol ar gyfer integreiddio i'r gymuned. Fodd bynnag, yn ôl rhai o'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld, mae nifer sylweddol o ddinasyddion UE-8 ac UE-2 nad ydynt yn siarad Saesneg, hyd yn oed ar ôl byw yng Nghymru am gyfnod estynedig. Fel yr amlygwyd yn yr adran ansoddol, mae'n annhebygol y bydd y bobl hyn, sydd mewn swyddi â sgiliau isel yn bennaf, yn cael yr amser i fynychu cyrsiau iaith Saesneg, gan eu bod yn gweithio oriau hir. Awgrym arall ar gyfer mynd i'r afael â'r her hon fyddai gwella sgiliau iaith Saesneg trwy wersi Saesneg yn y gymuned. Fel arall, gan fod llawer o ymfudwyr o'r UE yn treulio llawer o amser yn y gwaith, byddai'n ddefnyddiol pe bai cyflogwyr yn cael cymhellion i ddarparu gwersi Saesneg yn y gweithle.

# 7. Cyfeiriadau


Ager, A. & Strang, A. (2004) Indicators of Integration: final report.

Antecol, H. & Bedard, K. (2006) Unhealthy assimilation: Why do immigrants converge to American health status levels? Demography, 43(2), pp. 337–360. doi: 10.1353/dem.2006.0011.

Bijl, R. & Verweij, A. (eds) (2012) Measuring & monitoring immigrant integration in Europe: integration policies & monitoring efforts in 17 European countries. The Hague: The Netherlands Institute for Social Research/SCP (SCP publication, 2012–8).

Bilgili, Ö. (2014) 'Simultaneity in transnational migration research: links between migrants' host & home country orientation'.

Blank, G. & Lutz, C. (2017) 'Representativeness of Social Media in Great Britain: Investigating Facebook, LinkedIn, Twitter, Pinterest, Google+, & Instagram', *American Behavioral Scientist*, 61(7), pp. 741–756. doi: 10.1177/0002764217717559.

Cangiano, A. (2019) The Impact of Migration on UK Population Growth.

Communities & Local Government Committee (2008) Community Cohesion & Migration.

Council of Europe (1997) Measurement & indicators of integration.

EWSI Editorial Team (2016) Immigrant Housing in Europe: Overview, European Web Site on Integration.

Fernández-Reino, M. (2019) English language use & proficiency of migrants in the UK, Migration Observatory.

Fernández-Reino, M. (2020) The health of migrants in the UK, Migration Observatory.

Gidley, B. & Jayaweera, H. (2010) An evidence base on migration & integration in London.

Goodhart, D. & Norrie, R. (2016) Integration Index.

Guerra, G. & Patuelli, R. (2010) The Influence of Role Models on Immigrant Self-Employment: A Spatial Analysis for Switzerland.

Guma, T. & Dafydd Jones, R. (2019) 'Where are we going to go now?" European Union migrants' experiences of hostility, anxiety, & (non-)belonging during Brexit: EU migration, belonging & Brexit', Population, Space & Place, 25(1), p. e2198. doi: 10.1002/psp.2198.

Home Office (2019) Home office indicators of integration.

Huddleston, W. T., Niessen, J. & Tjaden, J. D. (2013) Using EU Indicators of Immigrant Integration.

International Organisation for Migration (2013) Recognition of Qualifications & Competences of Migrants.

Jaitman, L. & Machin, S. (2013) 'Crime & immigration: new evidence from England & Wales', IZA Journal of Migration, 2(1), p. 19. doi: 10.1186/2193-9039-2-19.

Jasso, G., Massey, D., Rosenzweig, M., Smith, J. (2004) Immigrant health: selectivity & acculturation. Working Paper Series. doi: 10.1920/wp.ifs.2004.0423.

Jensen, O. & Gidley, B. (2014) 'The Politics of Mainstreaming Immigrant Integration Policies, p. 49. Ar gael yn:

Knight, J., Thompson, A. & Lever, J. (2017) 'Social network evolution during long-term migration: a comparison of three case studies in the South Wales region', Social Identities, 23(1), pp. 56–70. doi: 10.1080/13504630.2016.1207511.

Lemos, S. (2014) 'Labour Market Effects of Eastern European Migration in Wales', The Manchester School, 82(5), pp. 524–548. doi: 10.1111/manc.12033.

Lessard-Phillips, L., Fajth, V. & Fernández-Reino, M. (2020) Migrants' social relationships, identity & civic participation in the UK, Migration Observatory.

McGinnity, F., Quinn, E., Kingston, G., O'Connell, P. (2012) Annual Monitoring Report on Integration 2012.

Migration Advisory Committee (2014) Migrants in low-skilled work: The growth of EU & non-EU labour in low skilled jobs & its impact on the UK.

Migration Advisory Committee (2018) EEA migration in the UK: Final report.

Morris, M. & Hochlaf, D. (2019) Measuring the benefits of integration.

Mügge, L. & van der Haar, M. (2016) 'Who Is an Immigrant & Who Requires Integration? Categorizing in European Policies', in Garcés-Mascareñas, B. & Penninx, R. (eds) Integration Processes & Policies in Europe. Cham: Springer International Publishing (IMISCOE Research Series), pp. 77–90. doi: 10.1007/978-3-319-21674-4_5.

Nandi, A. & Platt, L. (2014) Britishness & Identity Assimilation among the UK's Minority & Majority Ethnic Groups.

OECD/EU (2015) Indicators of Immigrant Integration 2015: Settling In.

OECD/EU (2018) Settling In 2018: Indicators of Immigrant Integration.

Okólski, M. & Salt, J. (2014) Polish Emigration to the UK after 2004; Why Did So Many Come?.

Oxford Economics (2011) The Impact of International & EU students in Wales.

Public Policy Institute for Wales (2016) PPIW Evidence Summary on EU migration.

Rosiak, K. (2018) 'Polish new speakers of Welsh: motivations & learner trajectories', Language, Culture & Curriculum, 31(2), pp. 168–181. doi: 10.1080/07908318.2017.1415925.

Ryan, L. (2018) 'Differentiated embedding: Polish migrants in London negotiating belonging over time', Journal of Ethnic & Migration Studies, 44(2), pp. 233–251. doi: 10.1080/1369183X.2017.1341710.

Rzepnikowska, A. (2019) 'Racism & xenophobia experienced by Polish migrants in the UK before & after Brexit vote', Journal of Ethnic & Migration Studies, 45(1), pp. 61–77. doi: 10.1080/1369183X.2018.1451308.

Spencer, S., Ruhs, M., Anderson, B., Rogaly, B. (2007) The experiences of Central & East European migrants in the UK, JRF.

Spencer, S. & Sanders, S. (2016) Developing a Strategic Approach to Integration in Wales: A practical resource for Local Authorities & their partners in Wales.

Sumption, M. (2020) Not Settled Yet? Understanding the EU Settlement Scheme using the Available Data, Migration Observatory.

Llywodraeth Cymru (2015a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Llywodraeth Cymru (2015b) Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15.

Llywodraeth Cymru (2017) Diogelu Dyfodol Cymru.

Llywodraeth Cymru (2018) Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill – Polisi Cymru.

Llywodraeth Cymru (2019a) Amcangyfrifon stoc anheddau Cymru ar 31 Mawrth 2019.

Llywodraeth Cymru (2019b) Cynllun ffoaduriaid a cheiswyr lloches (cenedl noddfa).

Threadgold, T.R., Clifford, S., Arwo, A., Powell, V., Harb, Z., Jiang, X., Jewell, J. (2008) Immigration & inclusion in South Wales.

Prifysgolion Cymru (2015) The Economic Impact of International Students in Wales.

Vargas-Silva, C. & Fernández-Reino, M. (2019) Migrants & Housing in the UK: Experiences & Impacts, Migration Observatory.

Wadsworth, J., Dhingra, S., Ottaviano, G., Van Reenen, J. (2016) Brexit & the Impact of Immigration on the UK.

Arsyllfa Wledig Cymru (2006) Scoping study on Eastern & Central European migrant workers in rural Wales.